



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru: Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau

**Adroddiad blynyddol 2024 (data hyd at
ddiwedd 2023)**

**Adroddiad ystadegol blynyddol ar farwolaethau sy'n
gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru gan ddefnyddio
ystadegau iechyd cenedlaethol a Chronfa Ddata Lleihau
Niwed Cymru**

Gwybodaeth am Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant ac i leihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru. Rydym yn gweithio ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol gyda'n partneriaid a'n cymunedau. Mae'r Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau yn gweithio i fynd i'r afael â'r bygythiadau iechyd y cyhoedd presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru. Mae'n cyd-fynd â'r amcan strategol cyffredinol i leihau anghydraddoldebau ac annhegwch iechyd, ac atal neu leihau clefydau trosglwyddadwy ac anhrosglwyddadwy, niwed ehangach a marwolaethau cyn pryd sy'n gysylltiedig â defnyddio cyffuriau ac alcohol a mathau o ymddygiad cysylltiedig sy'n peri risg.

Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rhif 2 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd

CF10 4BZ

Rhif ffôn: 02920104496

www.publichealthwales.org/substancemisuse

Cydnabyddiaeth: Hoffai Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiolch i bawb a gyfrannodd at Gronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, staff a'r holl ddarparwyr gan gynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol, gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol gan gynnwys OIS, a darparwyr gwasanaethau triniaeth glinigol arbenigol.

Awduron: Savannah King a Rick Lines

Dyfyniad a Awgrymir: Is-adran Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru (2024). Cronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru: Adroddiad Blyneddol Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau 2024 (data hyd at ddiwedd 2023). Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cynnwys

Cynnwys	3
Rhestr o fyrfoddau allweddol	4
Ffynonellau data.....	4
1 Crynodeb gweithredol.....	5
Prif ganfyddiadau a thueddiadau.....	5
2 Atal achosion angheuol o wenwyn gan gyffuriau opioid trwy ddosbarthu Naloxone i'w ddefnyddio yn y cartref (THN).....	8
2.1 Dosbarthiad THN ledled Cymru	8
2.2 THN a ddefnyddiwyd mewn achosion angheuol ac achosion heb fod yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau	9
2.2 Derbynnydd a gweinyddwr THN	12
2.2 Gofal dilynol	13
2.2 Unigolion a gyflenwyd â THN am y tro cyntaf.....	14
2.2 Ailgyflenwi THN.....	17
2.2 Dosbarthiad THN yn ôl Bwrdd Iechyd	19
3 Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Chyffuriau yng Nghymru	24
3.1 Marwolaethau Oherwydd Gwenwyno gan Gyffuriau.....	24
3.2 Marwolaethau nad ydynt yn Gysylltiedig â Chamddefnyddio Cyffuriau	26
3.3 Marwolaethau Oherwydd Camddefnyddio Cyffuriau.....	28
3.3 Demograffeg	29
3.3 Sylweddau	33
3.4 Daearyddiaeth.....	53
4 Adolygiadau o Achosion o Wenwyno Angheuol a Heb Fod yn Angheuol gan Gyffuriau	70
4.1 Adolygiadau o Achosion o Wenwyno Angheuol gan Gyffuriau	70
4.2 Adolygiadau o Achosion o Wenwyno Heb Fod yn Angheuol gan Gyffuriau . Error! Bookmark not defined.	
5 Atodiadau.....	82
Atodiad A - Diffiniadau a nodiadau ar ddehongli data	82
Atodiad B - Canllawiau ar adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau	84

Rhestr o fyrfoddau allweddol

ABUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
APB	Bwrdd Cynllunio Ardal
BCUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
CRC	Cydgysylltydd Adolygu Achosion
CTUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
CVUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
EASR	Cyfradd wedi'i Safoni yn ôl Oedran Ewropeaidd
HDUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
HRD	Cronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru
ICD-10	Dosbarthiad Rhyngwladol o Godau Clefydau
SYG	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
OST	Therapi amnewid opioid
PTUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Addysgu Powys
PWID	Pobl sy'n chwistrellu cyffuriau
SBUHB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
SCRA	Gweithydd Derbynnnydd Canabinoid Synthetig
SMS	Gwasanaeth camddefnyddio sylweddau

Ffynonellau data

Mae'r data yn yr adroddiad hwn wedi'i gasglu o ddwy brif ffynhonnell:

1. Cronfa Ddata Lleihau Niwed (HRD)
 - a. Modiwl Naloxone yn y Cartref
 - b. Adolygiadau o Achosion o Wenwyno Angheuol a Heb Fod yn Angheuol gan Gyffuriau
2. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)

1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Prif ganfyddiadau a thueddiadau

1.1.1 Naloxone yn y Cartref (THN) - Cronfa Ddata Lleihau Niwed

- Ers mis Gorffennaf 2013, nodir bod THN wedi cael ei ddefnyddio yn ystod 3,893 o ddigwyddiadau gwenwyno gan gyffuriau opioid, pob un yn farwolaeth bosibl a achoswyd gan gyffuriau. Dim ond mewn 1.3 y cant (n = 49) o ddigwyddiadau lle defnyddiwyd THN y nodwyd bod marwolaeth wedi deillio o wenwyno gan opioid.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nodwyd bod THN wedi cael ei ddefnyddio mewn 292 o ddigwyddiadau gwenwyno gan gyffuriau, gyda llai na 5 marwolaeth wedi'u nodi (llai nag 1.0 y cant). Mae amlder gofal dilynol, gan gynnwys galw am ambiwlans a mynd i'r ysbyty, yn parhau i fod yn gymharol gyson â'r blynyddoedd diwethaf.
- Mae nifer y digwyddiadau cyflenwi a'r unigolion newydd a gafodd eu cyflenwi wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn enwedig ymysg y rhai a gafodd eu cyflenwi am y tro cyntaf, tra bod cyfanswm y pecynnau a ddarparwyd wedi gostwng yn 2023.
- Ceir amrywiad rhanbarthol o ran darparu THN i'r rhai sydd mewn perygl o ddioddef neu fod yn dyst i ddigwyddiad gwenwyno gan gyffuriau opioid.
- Ymysg yr unigolion newydd a dderbyniodd THN, roedd dros hanner wedi'u rhestru fel aelodau teulu / partner / gofalwyr neu weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl sydd mewn perygl o gael eu gwenwyno gan opioid.
- Ymysg y bobl sy'n chwistrellu opioidau ac yn defnyddio gwasanaethau NSP yn rheolaidd, roedd 34.8 y cant ond wedi mynychu gwasanaethau NSP Fferylliaeth, lle mae'r ddarpariaeth THN yn parhau i fod yn gyfyngedig.
- Er bod darpariaeth THN yn y gymuned wedi parhau i gynyddu yn 2023, mae'r cyflenwad mewn carchardai wedi gostwng i'w lefel isaf ers dechrau'r rhaglen yn 2014.

1.1.2 Marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yng Nghymru - SYG

- Yn 2023, cofrestrwyd 377 o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig â gwenwyn cyffuriau yng Nghymru, sy'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cafodd 253 o'r marwolaethau hyn eu dosbarthu fel marwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau, o'i gymharu â 205 o farwolaethau o'r fath a gofrestrwyd yn 2022.
- Yn yr un modd â'r blynyddoedd blaenorol, y grŵp o sylweddau mwyaf cyffredin oedd opioidau, a oedd yn gysylltiedig â 167 o farwolaethau (66.0%), ac roedd 61.1% o'r rhain yn gysylltiedig â heroin/morffin.

Sylweddau eraill a nodwyd oedd cocên, methadon, pregabalin, diazepam, a bromazolam. Nodwyd bod amryw o gyffuriau wedi'u defnyddio mewn 61.3% y cant (n = 155) o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau. Bu cynnydd bach yn nifer a chyfran y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau yn ymwneud â chocên.

- Yn ystod y degawd diwethaf, roedd marwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau bum gwaith yn fwy ymysg pobl sy'n byw yn yr 20 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig o'i gymharu â'r 20 y cant o ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru.
- Yn 2023, roedd cymhareb y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau ymysg dynion fwy na thair gwaith yn uwch na menywod. Y grŵp oedran dros 50 oed oedd â'r nifer fwyaf o farwolaethau, sef 31.2 y cant o'r holl farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau (n = 79) yn 2023. Roedd saith o bobl o dan 25 oed wedi marw oherwydd cyffuriau.
- Mae llawer o amrywiad daearyddol o hyd yn y cyfraddau safonedig yn ôl oedran o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau ledled Cymru, ac mae cyfraddau awdurdodau lleol yn amrywio o 3.5 i 16.9 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth.

1.1.3 Adolygiadau o achosion angheuol/heb fod yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau - Cronfa Ddata Lleihau Niwed

- Ers cyflwyno'r adolygiadau cyflym o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn 2014, mae cyfanswm o 1,469 o adolygiadau o achosion angheuol a 1,494 o adolygiadau o achosion heb fod yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau wedi'u cynnal yng Nghymru. Mae nifer yr adolygiadau o achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau a gynhaliwyd yn 2023 yn cynrychioli 79.4 y cant o'r marwolaethau a gofnodwyd gan y SYG.
- Adolygwyd 201 o achosion angheuol o wenwyno gan gyffuriau yn 2023, sy'n ostyngiad o'r flwyddyn flaenorol pan gynhaliwyd 236 o adolygiadau.
- Mewn 86.4% o'r achosion lle'r oedd lleoliad y farwolaeth yn hysbys, roedd yr unigolyn dan sylw wedi'i wenwyno gan gyffuriau mewn preswylfa breifat, ac roedd y 13.6% o achosion eraill wedi digwydd mewn hostel neu fan cyhoeddus. Nodwyd bod 46.5 y cant yn byw mewn tai anniogel neu eu bod heb gartref sefydlog ar adeg y farwolaeth. Mewn 91.2% o achosion (n = 103) cyhoeddwyd bod yr unigolyn wedi marw yn y lleoliad.
- Mewn 50.7% o achosion a adolygwyd, ni nodwyd unrhyw gysylltiad hysbys rhwng yr ymadawedig ac unrhyw wasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol neu wasanaethau cyfiawnder troseddol lleol yn y 12 mis cyn y farwolaeth (n = 102). Nid oedd 55.9 y cant (n = 57) o'r rhain yn hysbys i unrhyw wasanaethau. Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am yr unigolion hyn.


- Mewn achosion lle nodwyd bod yr ymadawedig wedi cael cysylltiad â gwasanaeth yn ystod y 12 mis cyn ei farwolaeth, roedd gan 90.8 y cant (n = 89) hanes o salwch meddwl neu ddiagnosis o anhwylder seiciatrig.

2 Atal achosion angheuol o wenwyn gan gyffuriau opioid trwy ddosbarthu Naloxone i'w ddefnyddio yn y cartref (THN)

2.1 Dosbarthiad THN ledled Cymru

Mae'r cyflenwad o naloxone i'w ddefnyddio yn y cartref (THN), ynghyd â hyfforddiant ar adnabod ac ymateb i ddigwyddiadau gwenwyno gan opioid, yn parhau i fod yn ymyriad hanfodol a chosteffeithiol wrth atal achosion angheuol o wenwyno gan opioid. Ers 2009, mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, Gwasanaethau Troseddwy'r Integredig (IOS), carchardai, a gwasanaethau/hosteli digartrefedd cymeradwy wedi cyflenwi THN i unigolion y nodir eu bod 'mewn perygl' o gael eu gwenwyno gan opioid. Ers hynny, mae diwygiadau a wnaed i'r Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol (2015) wedi darparu cyfleoedd i ddosbarthu THN yn ehangach i fwy o unigolion gan gynnwys aelodau teulu, ffrindiau a gofalwyr pobl sydd mewn perygl, gweithwyr proffesiynol a rhaglenni gwirfoddolwyr. *Noder: roedd yr adran hon wedi'i chrynhofi'n flaenorol yn ôl blwyddyn ariannol, felly bydd ffigurau THN ychydig yn wahanol i fersiynau blaenorol o'r adroddiad hwn.*

Yn 2023, roedd THN ar gael mewn 87 o safleoedd cofrestredig yng Nghymru. Mae nifer y safleoedd sy'n cyflenwi THN wedi cynyddu bob blwyddyn, o 11 o safleoedd 'pilot' a gymerodd ran yn 2009 i 87 yn 2023 (Ffigur 1 a Thabl 1).



Ffynhonnell: Bas Data Lleihau Niwed Chwefror 2024

Ffigur 1: Nifer y safleoedd sy'n dosbarthu THN, unigolion a gyflenwyd â THN ac unigolion newydd a gyflenwyd â THN, a nifer y pecynnau THN a gyflenwyd, 2014 i 2023, Cymru

2.1.1 Unigolion a gyflenwyd â THN

Ers 1 Gorffennaf 2013, mae cyfanswm o 29,605 o unigolion wedi'u cyflenwi â 48,344 o becynnau THN ledled Cymru. Mae nifer yr unigolion a'r becynnau a gyflenwyd wedi cynyddu'n gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2023:


- cafodd 3,681 o unigolion eu cyflenwi â THN (eu cyflenwi neu eu hailgyflenwi), cynnydd o 3.1 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- cafodd 2,145 o unigolion newydd eu cyflenwi â THN, cynnydd o 15.2 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- cyflenwyd 6,350 o becynnau THN, gostyngiad o 3.9 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

Tabl 1: Nifer y safleoedd, unigolion a gyflenwyd a phecynnau THN a ddarparwyd yn ôl blwyddyn, 2014 i 2023

Blwyddyn	Nifer y Safleoedd	Cyfanswm yr unigolion a gyflenwyd	Unigolion newydd a gyflenwyd	Pecynnau THN a ddarparwyd
2014	45	1,232	800	2,107
2015	52	1,578	914	2,878
2016	58	2,545	1,370	4,131
2017	63	2,982	1,509	4,246
2018	54	3,042	1,326	4,441
2019	74	2,993	1,344	4,410
2020	63	2,809	1,062	4,584
2021	63	2,990	1,408	5,161
2022	77	3,572	1,862	6,610
2023	87	3,681	2,145	6,350

2.1 THN a ddefnyddiwyd mewn achosion angheuol a heb fod yn angheuol o wenwyno gan gyffuriau

Ers mis Gorffennaf 2013 pan ddechreuodd y rhaglen, cofnodwyd 3,893 o achosion lle defnyddiwyd THN yn ystod achos posibl o wenwyno gan opioid. Mae nifer yr achosion o ddefnyddio THN a gofnodwyd yn sefydlog o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond mae'r nifer sydd â chanlyniad anhysbys yn parhau i gynyddu (gweler Ffigur 2).



Ffynhonnell: Bas Data Lleihau Niwed Chwefror 2024

Ffigur 2: Nifer yr achosion o ddefnyddio THN a adroddwyd a gofnodwyd ar adeg ailgyflenwi yn ôl canlyniad, 2014 i 2023

2.1.2 Canlyniad, lleoliad, derbynnydd a gweinyddwr THN

Canlyniad

Cofnodwyd data ar ganlyniadau hysbys ar gyfer y rhan fwyaf o achosion posibl o wenwyno gan opioid lle nodwyd bod THN wedi'i ddefnyddio (gweler Tabl 2). O'r 292 digwyddiad a gofnodwyd yn 2023:

- Cofnodwyd achos angheuol o wenwyno gan opioid mewn llai nag 1.0 y cant ($n < 5$) o ddigwyddiadau.
- Cofnodwyd achos heb fod yn angheuol o wenwyno gan opioid mewn 75.0 y cant ($n = 219$) o ddigwyddiadau.
- Ni chofnodwyd unrhyw ganlyniad mewn 24.0 y cant ($n = 70$) o ddigwyddiadau.

Mae cyfran yr achosion angheuol o wenwyno gan opioid a gofnodwyd yn parhau i fod yn isel, ac mae cyfran y digwyddiadau a gofnodwyd yn 2023 yn parhau i fod yn sefydlog o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Tabl 2: Canlyniad, lleoliad, derbynnydd a gweinyddwr THN ar adeg y defnydd a adroddwyd, Cymru 2014 i 2023

	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Achosion a gofnodwyd lle y defnyddiwyd THN	207	393	589	537	487	449	237	287	296	292
% Canlyniad hysbys	93.0%	89.0%	92.0%	88.0%	92.0%	86.0%	91.0%	79.0%	79.0%	76.0%
% Gwenwyno angheuol gan opioid*	1.0%	<1.0%	1.5%	<1.0%	1.6%	1.3%	2.5%	1.4%	<1.0%	1.0%
Derbynnydd THN*										
% Rhoddwyd i 'ddeiliad y pecyn THN'	12.0%	11.0%	15.0%	13.0%	16.0%	17.0%	29.0%	22.0%	21.0%	28.0%
% Rhoddwyd i drydydd parti	83.0%	85.0%	83.0%	82.0%	78.0%	73.0%	67.0%	63.0%	65.0%	55.0%
Unigolyn a roddodd THN†										
% Rhoddwyd i 'ddeiliad y pecyn THN'	80.0%	72.0%	82.0%	80.0%	86.0%	79.0%	81.0%	76.0%	76.0%	78.0%
% Rhoddwyd gan weithiwr proffesiynol / gweithiwr hostel	14.0%	25.0%	12.0%	10.0%	11.0%	11.0%	17.0%	21.0%	14.0%	32.0%
% Rhoddwyd gan gyfoed/aelod o'r teulu	20.0%	16.0%	21.0%	20.0%	21.0%	29.0%	34.0%	27.0%	33.0%	32.0%
Lleoliad lle y rhoddwyd THN*										
% Rhoddwyd mewn preswylfa breifat	-	59.0%	63.0%	65.0%	63.0%	66.0%	64.0%	58.0%	57.0%	53.0%
% Rhoddwyd mewn hostel	-	18.0%	11.0%	8.0%	8.0%	10.0%	12.0%	18.0%	15.0%	21.0%
% Rhoddwyd mewn man cyhoeddus	-	23.0%	25.0%	27.0%	29.0%	24.0%	23.0%	24.0%	28.0%	26.0%

*Cyfran yr unigolion y cofnodwyd data ar eu cyfer ar y Gronfa Ddata Lleihau Niwed. Gweler yr Atodiad am grynodedb o gyflawnrwydd y data


†† Lle y rhoddwyd pecyn THN i drydydd parti

Lleoliad

Er mwyn lleihau achosion angheuol a heb fod yn angheuol o wenwyn yn y dyfodol, mae'n bwysig adnabod a nodi lleoliadau cyffredin digwyddiadau gwenwyno gan opioid er mwyn nodi ymyriadau priodol a thargedu gwasanaethau yn well.

Yn 2023, cofnodwyd y lleoliad lle defnyddiwyd THN mewn 82.2 y cant (n = 240) o ddigwyddiadau.

- Y defnydd o THN mewn preswylfeydd preifat oedd y lleoliad mwyaf cyffredin o hyd, a gofnodwyd mewn 53% o ddigwyddiadau (Tabl 2 a Ffigur 3)
- Mae'r defnydd o THN mewn lleoliadau hostel wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf, a chofnodwyd hyn mewn 21 y cant o ddigwyddiadau
- Mae'r defnydd o THN mewn mannau cyhoeddus yn gyson â'r flwyddyn flaenorol, sef 26% o ddigwyddiadau yn 2023 o'i gymharu â 28% yn 2022. Mae'n bosibl bod hyn yn deillio o hyfforddiant a chyflenwad parhaus i weithwyr proffesiynol a grwpiau cyfoedion a chynnydd mewn cynlluniau 'ymatebwr cyntaf' sydd ar gael mewn rhai gwasanaethau yng Nghymru



Ffigur 3: Lleoliad a gofnodwyd lle defnyddiwyd THN, 2014 i 2023

2.2 Derbynnnydd a gweinyddwr THN

Yn 2023, cofnodwyd derbynnydd THN mewn 82.2% (n = 240) o ddigwyddiadau gwenwyno gan opioid a gofnodwyd yng Nghronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru. Yn yr achosion hyn:

- Gweinyddwyd THN i 'drydydd parti' (h.y. nid yr unigolyn a dderbyniodd y pecyn yn wreiddiol) mewn 54.8% o ddigwyddiadau
- Yn gyffredinol, mae adroddiadau am becynnau yn cael eu rhoi i'r 'deiliad pecyn THN' a enwyd wedi cynyddu dros y blynyddoedd i 27.7 y cant o ddigwyddiadau yn 2023
- Yn gyffredinol, mae adroddiadau am becynnau THN yn cael eu rhoi gan y 'deiliad pecyn THN' a enwyd wedi aros yn gymharol sefydlog (78.1 y cant o ddigwyddiadau yn 2023)


2.3 Gofal dilynol

Er bod THN yn parhau i fod yn ymyriad effeithiol ar gyfer lleihau achosion angheuol o wenwyno gan opioid, mae effaith aciwt THN yn gyfyngedig o ran amser. O ganlyniad, mae gofal dilynol, gan gynnwys galw am barafeddyg/ambiwlans, yn hanfodol ym mhob achos o weinyddu THN er mwyn sicrhau nad yw unigolyn yn atglafychu i gael ei wenwyno gan opioid. Cofnodwyd manylion am y cais am ofal dilynol mewn 80.1 y cant (n = 234) o ddigwyddiadau lle cofnodwyd defnydd o THN yn 2023. Mae crynodeb o'r camau a gymerwyd i'w weld yn Nhabl 3 a Ffigur 4. Yn 2023:

- Galwyd am ambiwlans i fynychu 38.0 y cant o ddigwyddiadau (n = 111) lle nodwyd bod THN wedi'i ddefnyddio
- Pan alwyd am ambiwlans, cafodd yr unigolyn ei gludo i'r ysbyty mewn 47.4% (n = 53) o ddigwyddiadau, a gwrthododd yr unigolyn fynd i'r ysbyty mewn 28.8 y cant (n = 32) o ddigwyddiadau.

Tabl 3: Gofal dilynol a gofnodwyd yn dilyn y defnydd o THN, 2015 i 2023

	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Galwyd am ambiwlans	256	314	232	224	178	116	124	118	111
Dim camau pellach	10	65	61	49	38	37	27	29	26
Gwrthododd yr unigolyn fynd i'r ysbyty	96	87	55	62	58	24	36	32	32
Aethpwyd â'r unigolyn i'r ysbyty	150	162	116	113	82	55	61	57	53
Ni alwyd am ambiwlans	114	245	254	232	217	100	100	129	123
Ni chofnodwyd unrhyw ofal dilynol	23	30	51	31	54	21	63	49	58




Ffigur 4: Cyfran y defnydd a gofnodwyd o THN mewn achosion lle cofnodwyd gofal dilynol, Cymru, 2014 i 2023

2.4 Unigolion a gyflenwyd â THN am y tro cyntaf

Mae cyfanswm o 29,605 o bobl wedi cael eu cyflenwi â THN ers i'r rhaglen ddechrau. Cynyddodd nifer yr unigolion unigryw newydd a gyflenwyd â THN yng Nghymru 23 y cant, o 1,862 yn y flwyddyn flaenorol i 2,142 yn 2023. Er bod y nifer hwn yn parhau i gynyddu, gall cyfraddau cyflenwi i unigolion newydd leihau dros amser wrth i THN ddod yn gyffredin ymhlith y boblogaeth sydd 'mewn perygl'.

Mae data o Gronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru: modiwl y Rhaglen Nodwydd a Chwistrell (NSP) yn dangos bod 3,275 o bobl yng Nghymru sy'n chwistrellu cyffuriau (PWID) wedi nodi yn 2023-24 eu bod yn defnyddio opioidau ac yn cael mynediad at wasanaethau NSP yn rheolaidd. O'r rhain, mae 34.8 y cant yn defnyddio gwasanaethau Fferylliaeth Gymunedol yn unig, ac mae'r cyfraddau hyd yn oed yn uwch mewn rhanbarthau gwledig. Er bod THN ar gael gan yr holl NSPs gwasanaeth camddefnyddio sylweddau arbenigol yng Nghymru, mae'r

ddarpariaeth gan wasanaethau NSP Fferylliaeth Gymunedol yn parhau i fod yn gyfyngedig iawn.




Ffynhonnell: Bas Data Lleihau Niwed Chwefror 2024

Ffigur 5: Nifer yr unigolion a gyflenwyd â THN yn ôl blwyddyn, 2014 i 2023

2.4.1 Rôl unigolion newydd a gyflenwir â THN

Roedd diwygiadau i'r Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol yn 2015 yn rhoi cyfleoedd i gyflenwi ystod ehangach o unigolion â THN, gan gynnwys aelodau teulu, partneriaid a gofalwyr pobl y credir eu bod 'mewn perygl', a gweithwyr proffesiynol sy'n cael mwy o gysylltiad ag unigolion sy'n defnyddio opioidau. Yn 2023, roedd 59.2 y cant ($n = 1,267$) o unigolion newydd a gyflenwyd â THN naill ai'n aelodau teulu neu'n ofalwyr unigolyn 'mewn perygl' (22.5 y cant) neu'n weithwyr proffesiynol (77.5 y cant). Mae hyn yn gynnydd yn nifer a chyfran aelodau teulu a gofalwyr a gyflenwyd â THN o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, ac roedd yn uwch na'r gyfran o bobl 'mewn perygl' a gyflenwyd â THN (41.0 y cant; Ffigur 6).

Mae diwygiadau ychwanegol wedi'u gwneud i'r Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol sy'n cyflwyno THN trwynol fel dull paratoi amgen ar gyfer cyflenwi. Mae'r diwygiad hwn yn gyfle i ehangu dosbarthiad THN i grwpiau cymheiriaid a gweithwyr proffesiynol, yn enwedig mewn achosion lle'r oedd chwistrellu THN yn cael ei ystyried yn rhwystr i'w ddefnyddio.



Ffigur 6: Nifer yr unigolion newydd a gyflenwyd â THN yn ôl rôl, 2014 i 2023

2.4.2 Demograffeg unigolion mewn perygl a gyflenwyd â THN am y tro cyntaf

Mae unigolion sydd mewn perygl yn cynnwys y rhai sy'n debygol o brofi neu weld digwyddiad gwenwyno gan opioid ac mae'n cynnwys unigolion sy'n chwistrellu neu'n defnyddio opioidau gan gynnwys heroin a/neu sy'n derbyn triniaethau amnewidion opioid (OST) fel methadon neu buprenorffin. Mae'r oedran a'r ystod ganolrif, cyfran yr unigolion 50 oed a hŷn, a'r cyfnod chwistrellu i gyd wedi cynyddu ers 2015 (gweler Tabl 8). Mae'r data hwn yn gyson â charfan hŷn o PWID sy'n defnyddio opioidau ac yn defnyddio gwasanaethau NSP yng Nghymru.

Mae dosbarthiad yn ôl rhyw wedi amrywio dros amser, ac mae cyfran y dynion sy'n derbyn THN wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf i 58.0 y cant yn 2023.

Mae cyfran yr unigolion 'mewn perygl' newydd sy'n casglu THN ac yn nodi eu bod yn byw mewn tai anniogel/nad oes ganddynt gyfeiriad sefydlog wedi amrywio dros y blynyddoedd, ac fe gafwyd y cyfraddau isaf yn 2020 a 2022. Fodd bynnag, mae'r gyfran hon wedi cynyddu i 33.0% yn 2023, o'i gymharu â 17.5% yn 2022. Mae hyn yn groes i'r tueddiadau a welwyd yng ngwasanaethau NSP, lle'r oedd mwy o unigolion sy'n defnyddio opioidau wedi nodi bod ganddynt dai anniogel/dim cyfeiriad sefydlog rhwng 2015/16 a 2020/21, er bod y niferoedd hyn wedi gostwng ychydig yn y blynyddoedd diwethaf.

Pobl sy'n defnyddio amryw o gyffuriau sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ddigwyddiad gwenwyno gan opioid, yn enwedig y rhai sydd wedi'u rhyddhau o'r carchar yn ddiweddar. Mae cyfran yr unigolion sydd wedi derbyn THN ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar yn ddiweddar wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac roedd yn 70.1 y cant yn 2023.

Tabl 4: Demograffeg unigolion newydd 'mewn perygl' o gael eu gwenwyno gan opioid y cyflenwyd THN iddynt, 2015 i 2023

	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Unigolion newydd a gyflenwyd	640	1,100	1,147	1,052	888	783	925	1,001	878
Unigolyn 'mewn perygl' o gael ei wenwyno gan opioid	78.4%	79.5%	78.2%	76.8%	75.5%	74.8%	53.3%	48.7%	50.1%
% Dynion	75.3%	70.5%	69.9%	68.4%	69.6%	76.4%	73.9%	67.6%	58.0%
% Dan 25 oed	8.0%	7.7%	7.5%	8.3%	7.2%	8.0%	9.2%	9.5%	9.7%
% Dros 50 oed	8.6%	8.1%	9.2%	9.8%	12.8%	14.6%	16.8%	16.0%	18.9%
Oedran canolrifol (blynyddoedd)	36	36	37	37	38	38	38	39	39
Prif ffactorau risg*									
Defnyddio amrywiaeth o gyffuriau	55.2%	60.2%	64.5%	62.4%	58.9%	55.3%	49.9%	64.8%	70.1%
Wedi gadael cyfleuster dadwenwyno yn ddiweddar	10.6%	11.6%	11.3%	11.3%	10.3%	4.7%	3.3%	5.3%	7.0%
Wedi'i ryddhau o'r carchar yn ddiweddar	18.9%	13.1%	11.8%	12.2%	17.5%	29.2%	30.3%	14.7%	5.6%
Defnyddiwr opiad newydd	15.3%	15.1%	12.3%	14.1%	13.3%	10.9%	16.6%	15.1%	17.3%
Yn byw mewn tai anniogel / Heb gartref sefydlog	29.9%	33.2%	28.6%	27.9%	28.2%	14.7%	30.0%	17.5%	33.0%
% Hanes a gofnodwyd o wenwyno gan opioid (erioed)	45.4%	43.4%	41.8%	37.6%	41.6%	44.0%	44.0%	39.8%	33.0%


*Cyfran yr unigolion y cofnodwyd data are eu cyfer ar y Gronfa Ddata Lleihau Niwed. Gweler yr Atodiad am grynodedb o gyflawnrwydd da

2.5 Ailgyflenwi THN

Gall unigolion sy'n cario THN gasglu pecynnau newydd neu ychwanegol gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau. Yn 2023, roedd cyfanswm o 3,681 o ddigwyddiadau cyflenwi ledled Cymru. Roedd 2,884 o'r rhain yn ddigwyddiadau ailgyflenwi, sef gostyngiad o 7.5 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r holl unigolion a gyflenwyd â THN yn 2023:

- Cyflenwyd 82.7 y cant (n = 3,045) ohonynt â THN unwaith
- Cyflenwyd 10.5 y cant (n = 385) ohonynt â THN dwywaith
- Cyflenwyd 6.8 y cant (n = 251) ohonynt dair gwaith neu fwy

Mae'r ffigurau hyn yn gyson â blynyddoedd blaenorol fel y dangosir yn Ffigur 7.




Ffynhonnell: Bas Data Lleihau Niwed Chwefror 2024

Ffigur 7: Cyfran yr unigolion a gyflenwyd â THN sawl gwaith yn ystod un flwyddyn, 2014 i 2023

2.5.1 Rheswm dros ailgyflenwi

Darparwyd rheswm dros ailgyflenwi ar gyfer pob digwyddiad ailgyflenwi. Fel sy'n wir am y blynyddoedd blaenorol, y rheswm mwyaf cyffredin dros ailgyflenwi oedd colli pecynnau, a chofnodwyd y rheswm hwn mewn 47.3 y cant ($n = 1,365$) o ddigwyddiadau yn 2023. Mae'r cyfraddau hyn wedi aros yn gyson ers 2014 gyda rhai amrywiadau bach. Nododd 10.1 y cant arall ($n = 291$) eu bod wedi defnyddio eu pecyn THN blaenorol mewn digwyddiad gwenwyno gan gyffuriau. Nid oes modd gwybod sawl pecyn a gyflenwyd a allai fod wedi cael ei ddefnyddio mewn digwyddiad gwenwyno gan opioid os nad yw'r unigolyn yn dychwelyd i gael ei ailgyflenwi.




Ffigur 8: Rhesymau dros ailgyflenwi fel y'u hadroddwyd, 2014 i 2023

Anogir unigolion a gyflenwir â THN i ddychwelyd i gael eu hailgyflenwi yn unol â'r dyddiad dod i ben a nodir ar y pecyn. Yn 2023, ail-gyflenwyd 16.3 y cant o unigolion oherwydd bod dyddiad y pecyn wedi dod i ben, sy'n gyson yn fras â'r blynyddoedd diwethaf. Y rheswm dros y 26.3 y cant arall o ddigwyddiadau ailgyflenwi oedd darparu pecyn ychwanegol i'r unigolyn er mwyn sicrhau bod pecyn THN ar gael ym mhob lleoliad lle y gallai fod ei angen. Mae'r gyfradd hon wedi bod yn cynyddu ers 2014.

2.6 Dosbarthiad THN yn ôl Bwrdd Iechyd

Yn 2023, y Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran (EASR) ar gyfer pob unigolyn a gyflenwyd â THN yng Nghymru oedd 186.9 fesul 100,000 o'r boblogaeth, a 103.4 fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer unigolion newydd. Mae cymariaethau daearyddol rhwng byrddau iechyd (gweler Tabl 5, Ffigur 9, Tabl 6, a Ffigur 10) yn amlygu amrywiaeth o ran unigolion a gyflenwyd â THN.




Ffynhonnell: Bas Data Lleihau Niwed Chwefror 2024

Ffigur 9: Cyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran (EASR) o'r holl unigolion unigryw a gyflenwyd â THN yn ôl Bwrdd Iechyd, 2014 i 2023

Tabl 5: Nifer presennol o safleoedd, unigolion a phecynnau THN a gyflenwyd fesul ardal Bwrdd Iechyd yng Nghymru*, ynghyd ag EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth - pob unigolyn a gyflenwyd â THN, 2019 i 2023

	Safleoedd yn cyflenwi THN 2023	Unigolion a gyflenwyd 2023	Nifer y pecynnau a roddwyd 2023	EASR 2019	EASR 2020	EASR 2021	EASR 2022	EASR 2023
Aneurin Bevan	13	549	857	118.1	107.8	153.5	108.0	141.6
Betsi Cadwaladr	14	526	688	115.7	121.9	92.1	121.2	121.9
Caerdydd a'r Fro	12	985	1835	230.9	184.0	270.4	271.8	283.7
Cwm Taf Morgannwg	17	281	724	124.6	115.0	156.9	109.4	97.1
Hywel Dda	10	468	529	138.2	117.7	137.8	141.4	203.0
Addysgu Powys	7	119	211	106.4	196.4	53.4	244.7	159.2
Bae Abertawe	13	866	1509	215.0	203.7	154.8	332.9	339.3
Cymru†	87	3835	6397	151.4	141.2	155.6	176.2	186.9

Ymhlith yr holl unigolion a gyflenwyd â THN, cofnodwyd y cyfraddau uchaf o gyflenwi THN yn 2023 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (339.3 fesul 100,000 o'r boblogaeth) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (283.7 fesul 100,000 o'r boblogaeth). Cofnodwyd y cyfraddau isaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (97.1 fesul 100,000 o'r boblogaeth) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (121.9 fesul 100,000 o'r boblogaeth). Roedd cyfraddau cyflenwi THN wedi cynyddu ym mhob bwrdd iechyd yn 2023 ac eithrio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.



Ffynhonnell: Bas Data Lleihau Niwed Chwefror 2024

Ffigur 10: Cyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran (EASR) o unigolion newydd a gyflenwyd â THN yn ôl Bwrdd Iechyd, 2014 i 2023

Tabl 6: Cyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran (EASR) fesul 100,000 o'r boblogaeth - unigolion newydd a gyflenwyd â THN yn ôl ardal Bwrdd Iechyd yng Nghymru*, 2019 i 2023

	Unigolion newydd a gyflenwyd 2023	EASR 2019	EASR 2020	EASR 2021	EASR 2022	EASR 2023
Aneurin Bevan	344	52.4	31.4	69.8	59.1	88.9
Betsi Cadwaladr	400	59.2	67.6	53.8	82.0	93.2
Caerdydd a'r Fro	412	99.8	54.9	105.0	104.8	112.5
Cwm Taf Morgannwg	96	44.7	35.2	70.0	37.6	32.2
Hywel Dda	335	83.3	63.9	82.3	83.5	144.8
Addysgu Powys	62	35.1	61.7	17.0	157.9	82.6
Bae Abertawe	493	67.8	59.6	54.7	184.8	187.4
Cymru†	1,947	64.1	50.9	47.6	89.9	103.4

*Yn cynnwys THN a gyflenwyd gan Garchardai wedi'u lleoli yn y Bwrdd Iechyd

† Yn cynnwys safleoedd y tu allan i Gymru a ariennir gan y rhaglen THN genedlaethol a gofnododd gyflenwad i breswylwyr yng Nghymru (n=1)

Ymhlith yr unigolion a gyflenwyd â THN, cofnodwyd y cyfraddau uchaf o gyflenwi THN i unigolion newydd yn 2023 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (187.4 fesul 100,000 o'r boblogaeth) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (144.8 fesul 100,000 o'r boblogaeth). Cofnodwyd y gyfradd isaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (32.2 fesul 100,000 o'r boblogaeth).

2.6.1 Carchar o gymharu â'r gymuned

Ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar, mae defnyddwyr opioid mewn mwy o berygl o gael eu gwenwyno yn angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau. Ar hyn o bryd, cyflenwir THN adeg rhyddhau unigolion o bedwar o'r chwe charchar yng Nghymru. Mae dau garchar arall a leolir ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr sydd â charcharorion o Gymru wedi'u cynnwys yn y rhaglen THN hefyd ac maent yn adrodd drwy'r Gronfa Ddata Lleihau Niwed. Yn 2023:

2.6.2 Cyflenwyd THN yn y carchar ar 241 o achlysuron (4.8 y cant o'r holl ddigwyddiadau cyflenwi) naill ai i unigolion newydd neu fel ailgyflenwad, gostyngiad o 48.9 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol


2.6.3 Cafodd 189 o unigolion gyflenwad o THN pan oeddent yn y carchar, gostyngiad o 49.5 y cant o'i gymharu â'r 374 o unigolion a gyflenwyd yn 2022

2.6.4 Yn gyffredinol, cyflenwyd y lefel isaf o THN mewn lleoliadau carchar ers dechrau'r rhaglen

Tabl 7: Nifer y digwyddiadau cyflenwi THN mewn lleoliad carchar, yn ôl carchar a blwyddyn

	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
CEM Berwyn	-	-	-	3	22	97	186	181	79	-
CEM Caerdydd	83	146	256	270	233	163	151	198	230	144
CEM Eastwood Park*	-	-	43	223	229	184	57	73	122	44
CEM Parc	87	38	32	59	98	50	22	-	-	3
CEM Stoke Heath*	-	-	-	2	2	-	-	-	-	-
CEM Abertawe	91	116	149	237	191	125	42	11	41	50
Cyfanswm	261	300	480	794	775	619	458	463	472	241

*THN a gyflenwyd i breswylwyr o Gymru yn y boblogaeth Carchardai



Ffynhonnell: Bas Data Lleihau Niwed Chwefror 2024


Ffigur 11: Cyfran y digwyddiadau cyflenwi THN yn y carchar o'i gymharu â safleoedd cymunedol, 2014 i 2023

3 Marwolaethau sy'n gysylltiedig â Chyffuriau yng Nghymru

3.1 Marwolaethau Oherwydd Gwenwyno gan Gyffuriau

Yn 2023, cofrestrwyd 377 o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau yng Nghymru, sy'n gynydd o 18.9% o'i gymharu â'r flwyddyn galendr flaenorol. O'r marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau, roedd 67.1 y cant (253) wedi'u diffinio fel marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau, yn benodol marwolaethau yn ymwneud â chyffuriau anghyfreithlon a reolir o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 a deddfwriaeth gysylltiedig arall.

Bu cynnydd o 23.4 y cant yn nifer y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau, o 205 marwolaeth yn 2022 i 253 yn 2023 (gweler Ffigur 12). Mae nifer yr achosion o wenwyno gan gyffuriau nad ydynt wedi'u dosbarthu fel marwolaeth oherwydd camddefnyddio cyffuriau (marwolaethau nad ydynt yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau) wedi cynyddu hefyd o 113 yn 2022 i 124 yn 2023. Fodd bynnag, mae hyn yn ostyngiad bach yn y gyfran o 35.5 y cant i 32.9 y cant.




Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 12: Marwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau yng Nghymru yn ôl blwyddyn gofrestru a statws camddefnyddio cyffuriau, 2004 i 2023.

Mae'r Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran (EASR) fesul miliwn o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru wedi cynyddu o 71.4 marwolaeth fesul miliwn yn 2022 i 87.6 marwolaeth fesul miliwn o'r boblogaeth yn 2023. Ers 2005, mae cyfradd Cymru o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau wedi aros yn uwch nag yn Lloegr, ar wahân i'r gyfradd ar


gyfer dwy flynedd, fel y dangosir yn Ffigur 13. Yn 2023, y gyfradd yn Lloegr oedd 60.3 fesul miliwn o'r boblogaeth ac roedd amrywiad sylweddol rhwng rhanbarthau gwahanol. Mae cyfraddau marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau wedi cynyddu yn y ddwy wlad dros y degawdau diwethaf.

Mae angen bod yn ofalus wrth gymharu cyfraddau marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau â chyfraddau yn yr Alban oherwydd bod y dulliau casglu data yn wahanol a'r ffaith fod yna oedi rhwng dyddiad marwolaethau a chofrestru marwolaethau. Yn 2023, cofrestrwyd 1,172 o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn yr Alban. Roedd cyfradd y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn uwch yn yr Alban nag yng Nghymru, sef 224 marwolaeth fesul miliwn o'r boblogaeth. Wrth gymharu'r cyfraddau â rhanbarthau Lloegr, dim ond Gogledd-ddwyrain Lloegr oedd â chyfradd uwch na Chymru o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau fesul miliwn o'r boblogaeth yn 2023 (gweler Ffigur 14).



Ffynhonnell: ONS 2024


Ffigur 13: Cyfraddau wedi'u safoni yn ôl oedran fesul miliwn o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru a Lloegr yn ôl blwyddyn cofrestru'r farwolaeth, gyda chyfyngau hyder o 95%, 2004 i 2023



Ffigur 14: Cyfradd marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau fesul miliwn o boblogaeth yng Nghymru o'i gymharu â rhanbarthau penodol yn Lloegr, 2004 i 2023

3.2 Marwolaethau nad ydynt yn Gysylltiedig â Chamddefnyddio Cyffuriau

Cofrestrwyd 124 o achosion o wenwyno gan gyffuriau yng Nghymru yn 2023, sy'n gynydd o 9.7 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (gweler Tabl 8), ac roedd amrywiad daearyddol sylweddol yn ôl ardal bwrdd iechyd. Yr oedran marwolaeth canolrifol yn y categori hwn oedd 48 oed (ystod 14 – 87 oed), ac roedd 58.1 y cant yn ddynion. Y sylwedd mwyaf cyffredin a gofnodwyd oedd cyffuriau gwrth-iselder, a oedd yn bresennol mewn 13.7 y cant o farwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau ($n = 17$) (gweler Ffigur 15). Bu cynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau gwrth-iselder, cyffuriau gwrth-seicotig, propranolol ac inswlin yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf, tra bod nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â pharasetamol a chodin wedi gostwng. Fodd bynnag, nid yw un flwyddyn yn ddigonol i allu disgrifio tueddiadau newydd yn hyderus. Yn ystod y cyfnod hwn, cofnodwyd 'dim sylwedd wedi'i nodi' ar gyfer 77 o farwolaethau nad oeddent yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau.



Ffigur 15: Nifer yr achosion o wenwyno gan gyffuriau nad oeddent yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau yng Nghymru a oedd yn cynnwys y pum sylwedd mwyaf cyffredin a gofnodwyd, 2019 i 2023

Tabl 8: Data a chyfraddau demograffig ar gyfer achosion o wenwyno gan gyffuriau nad oeddent yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau, 2019 i 2023


	2019	2020	2021	2022	2023
Cymru					
Nifer y marwolaethau heb fod yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau	75	75	112	113	124
EARS fesul 100,000 o'r boblogaeth	2.5	2.5	3.8	3.8	4.2
Oedran canolrifol (blynyddoedd)	46	49	46	45	48
Ystod oedran (blynyddoedd)	19-90	20-94	21-87	19-93	14-87
% Dynion	52.0%	56.0%	60.7%	58.4%	58.1%
EASR Bwrdd Iechyd (n)					
Aneurin Bevan	1.4 (8)	1.7 (10)	3.4 (19)	7.8 (43)	6.8 (38)
Betsi Cadwaladr	4.3 (29)	3.8 (25)	2.5 (17)	2.2 (15)	2.6 (18)
Cwm Taf Morgannwg	3 (12)	1.8 (8)	3.3 (14)	0.9 (4)	1.9 (8)
Caerdydd a'r Fro	0.7 (3)	0.9 (4)	3 (13)	0.8 (4)	4.3 (20)
Hywel Dda	3.4 (12)	4.6 (15)	4.6 (16)	3.3 (12)	4.9 (18)
Addysgu Powys	2.6 (3)	3.4 (5)	0.5 (1)	2.5 (3)	3.1 (3)
Bae Abertawe	2.2 (8)	2.2 (8)	9.1 (32)	8.7 (32)	5.2 (19)

3.3 Marwolaethau Oherwydd Camddefnyddio Cyffuriau

Bydd gweddill yr adran hon yn crynhoi achosion o wenwyno gan gyffuriau a gafodd eu dosbarthu fel marwolaeth oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn ôl diffiniad SYG (gweler 5.1 Atodiad A). Mae marwolaeth oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn achos o wenwyno gan gyffuriau lle mai'r achos sylfaenol wedi'i ddosbarthu fel:

- 3.2.1 Camddefnyddio cyffuriau
- 3.2.2 Dibyniaeth ar gyffuriau
- 3.2.3 Gwenwyno gan gyffuriau ac unrhyw un o'r sylweddau a reolir o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971

Yr achos marwolaeth sylfaenol mwyaf cyffredin a gofrestrwyd yn 2023 oedd gwenwyno damweiniol, sef 87.7 y cant (n = 222) o'r holl farwolaethau yn ystod y flwyddyn (gweler Ffigur 16). Er bod categorïau eraill wedi parhau i fod yn gymharol sefydlog, mae nifer y marwolaethau o wenwyno damweiniol oherwydd camddefnyddio cyffuriau wedi parhau i gynyddu. Mae'r holl farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad waeth beth oedd bwriad yr unigolyn.




Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 16: Achos sylfaenol marwolaeth ar gyfer marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru fesul blwyddyn gofrestru, 2014 i 2023

3.4 Demograffeg

3.4.1 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru


Fel arfer, mae niwed sy'n deillio o gyffuriau yn gysylltiedig ag amddifadedd cymdeithasol ac economaidd. Roedd 39.1 y cant o'r 1,848 o bobl a fu farw oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru yn ystod y deng mlynedd diwethaf yn byw yn yr 20 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig (degradd 1-2) (gweler Ffigur 17). Roedd nifer y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau dros wyth gwaith yn fwy ymysg pobl a oedd yn byw yn y cwintel mwyaf difreintiedig o'i gymharu â'r cwintel lleiaf difreintiedig.



Ffigur 17: Nifer gronrus o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn ôl degradd amddifadedd, 2014 i 2023 (1 = y raddfa uchaf o amddifadedd i 10 = y raddfa isaf o amddifadedd)


3.4.2 Rhyw ac oedran

Mae Ffigur 18 yn dangos nifer y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau wedi'u haenu yn ôl rhyw. Yn 2023, roedd cyfradd marwolaethau dynion dros dair gwaith yn fwy na chyfradd marwolaethau menywod. Cynyddodd nifer y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn fwy o lawer ymysg dynion o'i gymharu â menywod yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf. Oedran canolrifol marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau oedd 46 oed (ystod 19-73 oed), sef cynnydd o ddwy flynedd o'i gymharu â 2022. Nid oedd gwahaniaeth rhwng oedran canolrifol marwolaeth dynion (46 oed; ystod 21-76 oed) a menywod (46 oed; ystod 19-92 oed).




Ffigur 18: Marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn ôl rhyw a blwyddyn gofrestru, 2014 i 2023, Cymru

Mae Ffigur 19 a Ffigur 20 yn dangos cyfran a nifer y marwolaethau yn ôl grŵp oedran, rhyw, a blwyddyn gofrestru. Yn 2023, y grŵp oedran 45-49 oed oedd y grŵp oedran pum mlynedd mwyaf cyffredin, a chofnodwyd y grŵp oedran hwn yn 19.4 y cant o'r holl farwolaethau oherwydd cyffuriau ($n = 49$). Roedd 7 o bobl o dan 25 oed wedi marw, sef 2.8 y cant o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn 2023. O'i gymharu â 2022, bu cynnydd nodedig yn nifer y marwolaethau ymysg dynion dros 30 oed, yn enwedig y rhai dros 50 oed. Hefyd, nodwyd cynnydd yn nifer y marwolaethau ymysg menywod dros 50 oed. Roedd gostyngiad nodedig yn nifer yr unigolion o dan 30 oed a oedd wedi marw, yn enwedig dynion.



Ffigur 19: Marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn ôl rhyw a blwyddyn gofrestru, 2019 i 2023




Ffigur 20: Marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn ôl grŵp oedran a blwyddyn gofrestru, 2014 i 2023

3.5 Sylweddau


Yn 2023, ac yn gyson â blynyddoedd blaenorol, y sylwedd mwyaf cyffredin a gofnodwyd ar gyfer marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru oedd heroin/morffin, a gofnodwyd mewn 40.3 y cant o farwolaethau (n=102). Mae nifer a chyfran y marwolaethau heroin/morffin wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf. Y sylweddau cyffredin eraill a gofnodwyd oedd:

- 3.4.3 Cocên (25.7 y cant n=65)
- 3.4.4 Pregabalin (21.3 y cant, n=54)
- 3.4.5 Methadon (14.2 y cant, n=36)
- 3.4.6 Diazepam (8.7 y cant, n=22)
- 3.4.7 Bromazolam (8.3 y cant, n=21)




Ffigur 21: Y chwe sylwedd mwyaf cyffredin a gofnodwyd mewn marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru, 2014 i 2023

Mae marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn cynnwys cyfuniad o sylweddau yn aml, gan gynnwys alcohol a meddyginiaethau sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig (POMs) neu feddyginiaethau dros y cownter (OTCs), y cyfeirir atynt fel defnyddio amryw o gyffuriau. Yn 2023, cofnodwyd mwy nag un sylwedd ar gyfer 61.3 y cant (n=155) o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau, sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol, fel y dangosir yn Ffigurau 22, 23 a 24. Nid yw sylweddau eilaidd yn cael eu cofnodi bob tro oherwydd y posibilrwydd nad yw'r holl sylweddau a nodir drwy brofion gwenwynegol wedi'u cofnodi yn y dystysgrif farwolaeth.



Ffynhonnell: ONS 2024


Ffigur 22: Marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru lle y cofnodwyd nifer o sylweddau, 2014 i 2023



Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 23: Marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru lle y cofnodwyd nifer o sylweddau, 2014 i 2023

Gall y defnydd o alcohol gyfrannu at farwolaeth oherwydd camddefnyddio cyffuriau oherwydd yr effeithiau iselder anadlol cyfunol, yn enwedig pan gaiff alcohol ei yfed gydag opioidau a/neu bensodiasepinau. Yn 2023, cofnodwyd tystiolaeth wenwynegol o alcohol mewn 19.4 y cant (n=49) o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau, gostyngiad bach o'r 21.5 y cant a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol, fel y dangosir yn Ffigur 23.




Ffigur 24: Nifer gymharol marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau unigol neu gyfuniadau o gyffuriau a nodwyd gyda'i gilydd mewn unrhyw safle ac a gofnodwyd ar y dystysgrif farwolaeth yng Nghymru 2023

3.5.1 Opioidau

Heroin a Morffin

Opioidau yw'r grŵp sylweddau mwyaf cyffredin a gofnodwyd mewn marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru. Yn 2023, roedd 66.0 y cant o farwolaethau yn gysylltiedig ag opioid (n=167), o'i gymharu â 61.0 y cant yn y flwyddyn flaenorol. O'r 167 o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag opioidau, roedd 102 yn cynnwys heroin/morffin. Roedd y 65 marwolaeth arall yn cynnwys o leiaf un opioid arall, fel methadon, codin, neu dramadol.



Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 25: Marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru, yn ôl grŵp sylwedd a blwyddyn cofrestru'r farwolaeth, 2014 i 2023


Roedd yr oedran canolrifol ar gyfer marwolaethau heroin/morffin yn 46 oed, ac roedd cyfran marwolaethau dynion yn 77 y cant yn 2023. Dangosir data demograffig ar gyfer marwolaethau heroin/morffin yn Nhabl 9. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda oedd â'r nifer fwyaf o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig â heroin/morffin, sef 23.5 y cant o'r holl farwolaethau heroin/morffin yng Nghymru yn 2023. Roedd yr EASR ar gyfer un flwyddyn fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer y rhanbarth hwn wedi cynyddu'n sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 3.2 yn 2022 i 7.3 yn 2023. Yr unig ranbarth a welodd ostyngiad yn yr EASR fesul

100,000 o'r boblogaeth oedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Cafwyd gostyngid bach yno o 3.6 yn 2022 i 3.1 yn 2023.

Tabl 9: Crynodeb o ddata demograffig yn ymwneud â marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â heroin/morffin fesul Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Cyfraddau Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran (EASR) fesul 100,000 o'r boblogaeth (nifer y marwolaethau mewn cromfachau), 2019 i 2023

	2019	2020	2021	2022	2023
Cymru					
Nifer y marwolaethau heb fod yn gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau	73	66	93	64	102
EARS fesul 100,000 o'r boblogaeth	2.5	2.5	3.8	3.8	4.2
Oedran canolrifol (blynyddoedd)	43	39.5	41	44	46
Ystod oedran (blynyddoedd)	17-77	20-74	17-73	22-70	19-73
% Dynion	77%	70%	68%	67%	77%
EASR Bwrdd Iechyd (n)					
Aneurin Bevan	1.2 (7)	0.5 (3)	1.9 (10)	1.7 (9)	4 (23)
Betsi Cadwaladr	1.8 (11)	2.1 (13)	1.3 (8)	1.1 (7)	1.3 (8)
Cwm Taf Morgannwg	4.6 (19)	2.2 (9)	6.8 (28)	3.3 (14)	5.7 (23)
Caerdydd a'r Fro	2.3 (11)	2.2 (10)	2.1 (10)	2.4 (12)	2.5 (12)
Hywel Dda	2.5 (8)	1.8 (6)	4.9 (16)	3.2 (10)	7.3 (24)
Addysgu Powys	1.8 (2)	1 (1)	4.8 (6)	0 (0)	0.5 (1)
Bae Abertawe	4 (15)	6.6 (24)	4.3 (15)	3.6 (12)	3.1 (11)


Yn 2023, cofnodwyd nad oedd 30.4% o farwolaethau heroin/morffin (n=31) yn cynnwys unrhyw sylwedd arall. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (n=12). Roedd y 69.6% (n=71) o farwolaethau eraill a oedd yn gysylltiedig â heroin/morffin yn cynnwys o leiaf un sylwedd arall (gweler Ffigur 26).



Ffigur 26: Marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau heroin/morffin a oedd yn gysylltiedig â grwpiau gwahanol o sylweddau, yn ôl blwyddyn gofrestru, 2019 i 2023

Opioidau eraill – ac eithrio heroin/morffin


Cofnodwyd o leiaf un opioid ac eithrio heroin/morffin mewn 65 o farwolaethau. Er bod cyfran o'r marwolaethau hyn yn cynnwys heroin/morffin hefyd, nid oedd y rhan fwyaf ohonynt yn eu cynnwys (gweler Ffigur 27).



Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 27: Marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru, yn ôl grŵp sylwedd a blwyddyn cofrestru'r farwolaeth, 2014 i 2023

Yr opioid mwyaf cyffredin a gofnodwyd, ar wahân i heroin/morffin, oedd methadon (gweler Ffigur 28). Mae nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â methadon wedi aros yn uchel, a bu cynnydd bach yn y flwyddyn ddiweddaraf. Roedd yr opioidau cyffredin eraill a gofnodwyd yn cynnwys codin (n=14), tramadol (n=13) a dihydrocodin (n=8). Yn 2023, cofnodwyd un farwolaeth a oedd yn gysylltiedig â fentanyl. Mae nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag 'opioidau amhenodedig' yn parhau i fod yn gyson â'r blynyddoedd diwethaf.



Ffynhonnell: ONS 2024


Ffigur 28: Marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau a oedd yn gysylltiedig ag opioidau eraill (ar wahân i heroin/morffin) yn ôl blwyddyn cofrestru'r farwolaeth a sylwedd, 2014 i 2023

Oedran canolrifol y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag opioidau eraill oedd 48 oed, o'i gymharu â 46 oed ar gyfer marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â heroin/morffin, ac roedd 63 y cant yn ddynion. Cofnodwyd yr EASRs uchaf ar gyfer marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau a oedd yn gysylltiedig ag opioidau eraill ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sef 2.9 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth (gweler Tabl 10). Ymhlith y 65 marwolaeth a oedd yn gysylltiedig ag opioidau eraill, ni chofnodwyd unrhyw sylwedd arall mewn 33.9 y cant (n=22) o'r marwolaethau. Yn y 43 marwolaeth arall, roedd y sylweddau a gofnodwyd ochr yn ochr ag opioidau yn

cynnwys bensodiasepinau, gabapentinoidau, cyffuriau gwrth-iselder, ac o leiaf un sylwedd arall (gweler Ffigur 29).

Tabl 10: Crynodeb o ddata demograffig yn ymwneud â marwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag opioidau eraill (ar wahân i heroin/morffin) fesul Bwrdd Iechyd, gan gynnwys EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth (gyda nifer y marwolaethau mewn cromfachau)

	2019	2020	2021	2022	2023
Cymru					
Nifer y marwolaethau	48	49	57	61	65
EARS fesul 100,000 o'r boblogaeth	1.6	1.7	2.0	2.1	2.2
Oedran canolrifol (blynyddoedd)	48.5	45	45	46	48
Ystod oedran (blynyddoedd)	21-88	17-77	17-83	18-94	27-92
% Dynion	63%	82%	67%	72%	63%
EASR Bwrdd Iechyd (n)					
Aneurin Bevan	1.4 (8)	0.3 (2)	1.6 (9)	2.4 (13)	2.4 (13)
Prifysgol Betsi Cadwaladr	1.7 (11)	1.8 (12)	2.3 (15)	2.7 (17)	1.9 (12)
Cwm Taf Morgannwg	1.9 (8)	2.3 (10)	2.2 (9)	3.1 (13)	2.9 (12)
Caerdydd a'r Fro	1.9 (8)	0.7 (3)	1.8 (8)	1.1 (5)	2.9 (13)
Hywel Dda	1.3 (5)	1.2 (4)	1.7 (6)	1.7 (6)	2.3 (8)
Addysgu Powys	2.6 (3)	4.6 (4)	0 (0)	1.2 (2)	0 (0)
Bae Abertawe	1.3 (5)	3.9 (14)	3 (10)	1.4 (5)	1.8 (7)




Ffigur 29: Marwolaethau opioidau eraill a oedd yn gysylltiedig â grwpiau sylweddau gwahanol yn ôl blwyddyn gofrestru, 2019 i 2023

3.5.2 Bensodiasepinau

Nodwyd bod bensodiasepinau yn gysylltiedig â 29.2 y cant o farwolaethau oherwydd camdefnyddio cyffuriau a gofrestrwyd yn 2023 (n=74), sef yr ail grŵp o sylweddau mwyaf cyffredin ar ôl opioidau. Mae Ffigur 30 yn dangos nifer y marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chategorïau gwahanol o bensodiasepinau. *Noder ei bod yn bosibl bod unigolyn wedi'i gyfrif fwy nag unwaith os oedd bensodiasepinau gwahanol yn gysylltiedig â'i farwolaeth.* Y math mwyaf cyffredin o bensodiasepin a gofnodwyd oedd Diazepam, a gofnodwyd mewn 22 marwolaeth yn 2023, a hwn oedd un o'r sylweddau unigol mwyaf cyffredin a gofnodwyd. Roedd y bensodiasepinau eraill a restrwyd yn cynnwys Bromazolam (n=21), Etizolam (n=14), a Flubromazolam (n=8).

Mae adroddiadau diweddar wedi nodi cynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â bensodiasepinau mewn rhanbarthau eraill o'r DU. Bu cynnydd yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â bensodiasepinau yn yr Alban ers 2014.¹ Er bod gostyngiad sylweddol wedi'i gofnodi yn 2022, mae'r niferoedd wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiweddaraf. Er mai Etizolam oedd y bensodiasepin mwyaf cyffredin a gofnodwyd o'r blaen, mae hwn wedi gostwng yn ystod y blynedd oedd diwethaf tra bod marwolaethau sy'n gysylltiedig â Bromazolam wedi cynyddu'n gyflym yn 2023, yn debyg i'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru.



Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 30: Marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â bensodiasepinau yn ôl blwyddyn gofrestru a sylwedd, 2014 i 2023


Yr oedran canolrifol ar gyfer marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â bensodiasepinau oedd 43.5 oed, ac roedd 82 y cant yn ddynion (gweler Tabl 11). Cofnodwyd yr EASR uchaf yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a oedd yn cyfrif am 23.0 y cant o'r holl farwolaethau a oedd yn gysylltiedig â bensodiasepinau.

¹Marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau yn yr Alban, 2023.
<https://www.nrscotland.gov.uk/files/statistics/drug-related-deaths/23/drug-related-deaths-23-report.pdf>

Tabl 11: Crynodeb o ddata demograffig yn ymwneud â marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â bensodiasepinau fesul Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Cyfraddau Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran (EASR) fesul 100,000 o'r boblogaeth (nifer y marwolaethau mewn cromfachau), 2019 i 2023

	2019	2020	2021	2022	2023
Cymru					
Nifer y marwolaethau	22	35	61	57	74
EARS fesul 100,000 o'r boblogaeth	0.8	1.2	2.2	2	2.6
Oedran canolrifol (blynyddoedd)	41	40	42	41	43.5
Ystod oedran (blynyddoedd)	21-67	20-71	19-65	18-70	24-58
% Dynion	82%	71%	82%	77%	82%
EASR Bwrdd Iechyd (n)					
Aneurin Bevan	0.7 (4)	0 (0)	0.4 (2)	1.6 (8)	2.5 (14)
Prifysgol Betsi Cadwaladr	0.3 (2)	0.2 (1)	0.2 (1)	0.3 (2)	0.2 (1)
Cwm Taf Morgannwg	0.7 (3)	2.7 (11)	4.4 (18)	3.5 (15)	4.1 (17)
Caerdydd a'r Fro	1.1 (5)	1.3 (6)	2.5 (11)	1.6 (7)	2.8 (13)
Hywel Dda	0.7 (2)	0.5 (2)	5.1 (16)	3 (10)	5.4 (17)
Addysgu Powys	1 (1)	1.9 (2)	0.7 (1)	0.9 (1)	0 (0)
Bae Abertawe	1.5 (5)	3.5 (13)	3.4 (12)	4.2 (14)	3.4 (12)

Roedd bron pob marwolaeth a oedd yn gysylltiedig â bensodiasepinau wedi cynnwys sylweddau eraill, yn enwedig opioidau. O'r 74 marwolaeth a oedd yn gysylltiedig â bensodiasepinau, rhestrwyd 59 gydag o leiaf un opioid, ac 8 gyda sylweddau nad oeddent yn opioidau (gweler Ffigur 31). Ni chofnodwyd unrhyw sylwedd arall mewn <5 marwolaeth.




Ffigur 31: Marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â bensodiasepinau a grwpiau o sylweddau gwahanol ychwanegol yn ôl blwyddyn gofrestru, 2019 i 2023

3.5.3 Cocên


Yn 2023, cofnodwyd cocên mewn 65 marwolaeth, sef 25.7% o'r holl farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau, y trydydd uchaf ar ôl opioidau a bensodiasepinau. Bu cynnydd mawr yn nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chocên dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'r duedd hon yn cyd-ddigwydd â chynnydd yn nifer y bobl sy'n mynd i'r ysbyty am resymau sy'n gysylltiedig â chocên, ac unigolion sy'n derbyn triniaeth gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau. Oherwydd y dulliau adrodd presennol, nid oes modd gwahaniaethu rhwng marwolaethau sy'n gysylltiedig â chrac cocên neu gocên powdr. Bu cynnydd yng nghyfran y marwolaethau lle mai cocên oedd yr unig sylwedd a restrwyd (gweler Ffigur 32). Mae sylweddau cyffredin a restrir ochr yn ochr â chocên yn cynnwys

heroin/morffin, opioïdau eraill, a bensodiasepinau, a bu cynnydd mewn 'sylweddau eraill' (gweler Ffigur 33).



Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 32: Marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau a oedd yn gysylltiedig â chocên fel yr unig sylwedd a gofnodwyd, a chocên ochr yn ochr ag o leiaf un sylwedd arall, yn ôl blwyddyn cofrestru'r farwolaeth, 2014 i 2023



Ffigur 33: Marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chocên a grwpiau o sylweddau gwahanol ychwanegol yn ôl blwyddyn gofrestru, 2019 i 2023

Oedran canolrifol marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chocên yn 2023 oedd 41 oed (Tabl 12). Mae dadansoddiad manylach yn dangos gwahaniaethau rhwng oedrannau canolrifol adeg marwolaeth lle mai cocên oedd yr unig sylwedd a restrwyd o'i gymharu â marwolaethau lle rhestrwyd cocên ochr yn ochr â sylweddau eraill.


Tabl 12: Crynodeb o ddata demograffig yn ymwneud â marwolaethau a oedd yn gysylltiedig â chocên, fesul Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Cyfraddau Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran (EASR) fesul 100,000 o'r boblogaeth (nifer y marwolaethau mewn cromfachau), 2019 i 2023

	2019	2020	2021	2022	2023
Wales					
Nifer y marwolaethau	30	47	47	52	65
EARS fesul 100,000 o'r boblogaeth	1.0	1.7	1.7	1.8	2.3
Oedran canolrifol (blynyddoedd)	36.5	39	41	36.5	41
Ystod oedran (blynyddoedd)	18-60	21-58	19-59	21-62	21-57
% Dynion	73%	79%	81%	88%	91%
EASR Bwrdd Iechyd (n)					
Aneurin Bevan	0.2 (1)	0.4 (2)	0.5 (3)	3.1 (16)	3.8 (21)
Prifysgol Betsi Cadwaladr	2 (12)	1.8 (11)	1.7 (10)	1.1 (7)	1.8 (11)
Cwm Taf Morgannwg	0.5 (2)	1.5 (6)	2.1 (9)	1.9 (8)	1.9 (8)
Caerdydd a'r Fro	1.3 (6)	1.2 (5)	1.3 (6)	1 (5)	0.9 (5)
Hywel Dda	0.4 (1)	0 (0)	1.7 (5)	2 (6)	2.9 (9)
Addysgu Powys	2.2 (2)	2.3 (2)	0 (0)	1.1 (1)	0 (0)
Bae Abertawe	1.6 (6)	5.8 (21)	4 (14)	2.6 (9)	2.9 (11)

3.5.4 Cyffuriau adfywiol a sylweddau eraill


Yn 2023, roedd 34.0 y cant o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn gysylltiedig â sylweddau nad oeddent yn opioidau (n=86), gostyngiad o 5 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn gyffredinol, mae nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â sylweddau nad ydynt yn opioidau wedi cynyddu ers 2014, ac eithrio yn 2017 a 2020. Mae nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chocên ond nad ydynt yn cynnwys opioidau wedi cynyddu'n gyson ers 2020, a chocên oedd y sylwedd mwyaf cyffredin a gofnodwyd mewn marwolaethau nad oeddent yn gysylltiedig ag opioidau yn 2023 (38.4).

Dros y degawd diwethaf, cofnodwyd Ecstasi/MDMA mewn 46 o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau gan gynnwys marwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag opioidau. Mae 32 o'r marwolaethau hyn wedi digwydd ers 2019, a chofnodwyd y nifer fwyaf yn 2023. Mae 35 o'r marwolaethau hyn nad oeddent yn gysylltiedig ag opioidau wedi cynnwys Ecstasi/MDMA yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, a 23 yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a chofnodwyd y nifer fwyaf yn 2019 (gweler Ffigur 34).



Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 34: Marwolaethau nad oeddent yn gysylltiedig ag opioidau ond a oedd yn gysylltiedig â chyffuriau adfywiol a sylweddau amhenodol, yn ôl sylwedd a blwyddyn cofrestru'r farwolaeth, 2014 i 2023




Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 35: Nifer y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru, yn ôl sylwedd, 2019 i 2023

3.5 Daearyddiaeth

3.5.1 Trosolwg Cymru

Mae'r holl gyfraddau marwolaethau yn yr adran hon wedi'u cyfrifo fel EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth. Yn 2023, yr EASR ar gyfer marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru oedd 8.8 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, cofnodwyd y cyfraddau uchaf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, sef cyfradd o 12.4 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth (gweler Ffigur 36 a Thabl 13). Cofnodwyd y gyfradd isaf o farwolaethau ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, sef 3.5 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth.




Ffigur 36: EASR o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl bwrdd iechyd, 2019 i 2023

Tabl 13: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth a nifer y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn ôl bwrdd iechyd, awdurdod lleol, a blwyddyn gofrestru'r farwolaeth, 2019 i 2023 (nifer y marwolaethau mewn cromfachau)

	2019	2020	2021	2022	2023
Aneurin Bevan	4.1 (23)	2.1 (12)	4.4 (24)	6.5 (35)	9.9 (56)
Blaenau Gwent	8.7 (6)	1.7 (1)	5.3 (3)	5 (3)	16.9 (11)
Caerffili	4.1 (7)	1 (2)	7.1 (12)	8.7 (14)	8.8 (15)
Sir Fynwy	3.7 (3)	4.9 (4)	0 (0)	2.3 (2)	5.7 (5)
Casnewydd	2 (3)	1.8 (3)	5.2 (8)	8.6 (13)	9.4 (15)
Torfaen	4.8 (4)	2.3 (2)	1.3 (1)	3.6 (3)	11 (10)
Betsi Cadwaladr	6.1 (39)	5.6 (35)	6.1 (38)	5.4 (35)	5.9 (37)
Conwy	4.6 (5)	5 (5)	9.4 (9)	5.3 (6)	10 (10)
Sir Ddinbych	2.4 (2)	2.5 (2)	2.2 (2)	5.3 (5)	3.9 (4)
Sir y Fflint	3.5 (5)	3.5 (5)	5.7 (8)	2.8 (4)	3.8 (6)
Gwynedd	5.4 (6)	3.9 (4)	5 (6)	8.1 (9)	9.4 (9)
Ynys Môn	14.3 (10)	11.4 (7)	1.8 (1)	3.5 (2)	3.8 (2)
Wrecsam	8.6 (11)	9.3 (12)	9.4 (12)	7 (9)	4.7 (6)
Caerdydd a'r Fro	4.6 (21)	3.1 (14)	6.2 (29)	5.9 (28)	6.6 (31)
Caerdydd	5.3 (17)	3.1 (10)	7.4 (26)	5.5 (19)	7.3 (25)
Bro Morgannwg	3.2 (4)	3.1 (4)	2.4 (3)	7.2 (9)	5.1 (6)
Cwm Taf Morgannwg	7.1 (30)	5.7 (24)	10.4 (43)	8.1 (34)	12.4 (51)
Merthyr Tudful	5.7 (3)	7.2 (4)	13.9 (8)	7 (4)	15.2 (8)
Rhondda Cynon Taf	7.7 (17)	4.2 (9)	9.4 (21)	8.7 (19)	13.2 (29)
Pen-y-bont ar Ogwr	7 (10)	7.6 (11)	10.6 (14)	7.7 (11)	10.2 (14)
Hywel Dda	4.8 (16)	3.6 (12)	8.8 (29)	6.4 (21)	11.1 (37)
Sir Gaerfyrddin	5.4 (9)	4 (7)	8.9 (15)	3.1 (5)	15.8 (27)
Ceredigion	7.2 (4)	5.6 (3)	4.4 (3)	7.8 (5)	0 (0)
Sir Benfro	2.7 (3)	2.1 (2)	11.2 (11)	10.4 (11)	9.5 (10)
Addysgu Powys	9.2 (10)	7.6 (7)	4.8 (6)	3.2 (4)	3.5 (4)
Powys	9.2 (10)	7.6 (7)	4.8 (6)	3.2 (4)	3.5 (4)
Bae Abertawe	7 (26)	12.3 (45)	11.7 (41)	13.9 (48)	10.2 (37)
Castell-nedd Port Talbot	2.9 (4)	8 (11)	10.1 (13)	13.3 (17)	6.7 (9)
Abertawe	9.4 (22)	14.8 (34)	12.7 (28)	14.3 (31)	12.3 (28)
Cymru	5.6 (165)	5.1 (149)	7.3 (210)	7.1 (205)	8.8 (253)


Yr awdurdod lleol â'r cyfraddau uchaf yn 2023 oedd Blaenau Gwent (16.9 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth) a Sir Gaerfyrddin (15.8 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth) (gweler Ffigur 37 a Thabl 13). Cofnodwyd y cyfraddau isaf ym Mhowys (3.5 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth).



Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 37: EASR o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl bwrdd iechyd, 2023

Mae'r SYG yn cyhoeddi cyfartaledd treigl tair blynedd ar gyfer pob awdurdod lleol fel rhan o'i hadroddiad blynyddol. Mae hyn yn cyfuno EASR y tair blynedd diwethaf er mwyn nodi tueddiadau mwy hirdymor a chyfrif am amrywiadau blynyddol mewn marwolaethau. Gan ddefnyddio'r mesur hwn, cofnodwyd mai Abertawe a Merthyr Tudful oedd â'r EASR uchaf fesul 100,000 o'r boblogaeth mewn perthynas â marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru (gweler Ffigur 38). Dylid nodi bod cyfartaledd treigl tair blynedd yn cymryd amser i addasu i unrhyw duedd newydd. Mae'r ffaith hon, ochr yn ochr â'r oedi wrth adrodd am farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau, yn golygu na fydd unrhyw effaith myriadau diweddar ers y cyhoeddiad diwethaf yn amlwg yn y data.




Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 38: EASR cyfartalog treigl tair blynedd fesul 100,000 o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol, 2021-23

3.5.2 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB)


Cyfradd y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn ABUHB oedd 9.9 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2023, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r gyfradd hon wedi cynyddu o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae'n uwch na chyfraddau'r pedair blynedd flaenorol. Yn 2023, roedd cyfartaledd awdurdodau lleol Blaenau Gwent, Casnewydd a Thorfaen yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (gweler Ffigur 39). Roedd gan Blaenau Gwent EASR uwch (16.8) nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru yn 2023 yn dilyn cynnydd mawr o' gymharu â chyfradd y flwyddyn flaenorol (5.0).



Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 39: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau mewn awdurdodau lleol yn ABUHB, yn ôl blwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio data ar gyfer un flwyddyn a thair blynedd, 2019 i 2023 (mae'r llinellau'n dangos EASR un flwyddyn ar gyfer 2023)

Cofnodwyd opioïdau yn fwy nag unrhyw sylwedd arall yn ABUHB, ac fe'u cofnodwyd mewn 64.3 y cant o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn y bwrdd iechyd yn 2023. Roedd heroin/morffin yn gysylltiedig â'r rhan fwyaf o farwolaethau. Cocên oedd yr ail sylwedd mwyaf cyffredin, ac fe'i cofnodwyd mewn 37.5% o farwolaethau (gweler Ffigur 40).




Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 40: Nifer y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau a oedd yn gysylltiedig â'r chwe grŵp o sylweddau a gofnodwyd amlaf yn ABUHB, yn ôl blwyddyn, 2014 i 2023

3.5.3 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB)


Yn 2023, cofnodwyd cyfradd o 5.9 o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn BCUHB, cynnydd bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (5.4). Yr unig awdurdodau lleol yn ardal y bwrdd iechyd hwn a oedd â chyfradd marwolaethau yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru oedd Conwy a Gwynedd. Mae'r cyfartaledd treigl tair blynedd EASR yn dangos cyfraddau cynyddol yng Nghonwy a Gwynedd, tra bod y cyfartaledd ym mhob un o'r awdurdodau lleol eraill yn ardal y bwrdd iechyd wedi gostwng yn gyffredinol (gweler Ffigur 41).



Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 41: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth mewn perthynas â marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau mewn awdurdodau lleol yn BCUHB, yn ôl blwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio data un flwyddyn a thair blynedd, 2019 i 2023 (mae'r llinellau'n dangos EASR un flwyddyn ar gyfer 2023)

Yn BCUHB, opioidau ac eithrio heroin/morffin oedd y sylwedd mwyaf cyffredin yn 2023, ac fe'u cofnodwyd mewn 37.8 y cant o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau. Roedd opioidau eraill yn cynnwys methadon, codin, a tramadol. Roedd heroin/morffin ac opioidau wedi'u cofnodi mewn 54.1 y cant o farwolaethau yn y bwrdd iechyd. Roedd y sylweddau eraill yn cynnwys cocên, gabapentinoidau, ac amffetaminau (gweler Ffigur 42).




Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 42: Nifer y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau a oedd yn gysylltiedig â'r chwe grŵp o sylweddau a gofnodwyd amlaf yn BCUHB, yn ôl blwyddyn, 2014 i 2023

3.5.4 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro


Yn 2023, cofnodwyd 6.6 marwolaeth fesul 100,000 o'r boblogaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sef cynnydd bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (5.9). Roedd y gyfradd marwolaethau a gofnodwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn is na chyfartaledd Cymru yn 2023 (gweler Ffigur 43). Mae'r cyfartaledd treigl tair blynedd yn dangos bod y gyfradd marwolaethau ym Mro Morgannwg yn is na'r gyfradd yng Nghaerdydd.



Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 43: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth mewn perthynas â marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau mewn awdurdodau lleol yn CVUHB, yn ôl blwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio data un flwyddyn a thair blynedd, 2019 i 2023 (mae'r llinellau'n dangos EASR un flwyddyn ar gyfer 2023)

Cofnodwyd opioidau mewn 80.6 y cant o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn CVUHB yn 2023. O'r rhain, cofnodwyd heroin/morffin mewn 48 y cant o farwolaethau opioid, a chofnodwyd opioidau heblaw heroin/morffin ar gyfer mwy o farwolaethau. Roedd y rhan fwyaf o 'opioidau eraill' a gofnodwyd ar gyfer marwolaethau yn CVUHB yn 2023 yn gysylltiedig â methadon. Cofnodwyd bensodiasepinau a gabapentinoidau yn y bwrdd iechyd hefyd (gweler Ffigur 44).




Ffigur 44: Nifer y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau a oedd yn gysylltiedig â'r chwe grŵp o sylweddau a gofnodwyd amlaf yn CVUHB, yn ôl blwyddyn, 2014 i 2023

3.5.5 Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB)

Yn 2023, roedd y gyfradd marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn 12.4 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn CTMUHB, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru ac yn gynnydd amlwg o'r flwyddyn flaenorol (8.1). CTMUHB oedd â'r gyfradd uchaf o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yng Nghymru yn y flwyddyn ddiweddaraf.

Roedd gan bob awdurdod lleol yn y bwrdd iechyd gyfradd marwolaethau uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru (gweler Ffigur 45). Mae'r cyfartaledd treigl tair blynedd yn dangos bod marwolaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Merthyr

Tudful wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bod y gyfradd yn Rhondda Cynon Taf yn cynyddu erbyn hyn yn dilyn tuedd ar i lawr yn ddiweddar.




Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 45: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth mewn perthynas â marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau mewn awdurdodau lleol yn CTMUHB, yn ôl blwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio data un flwyddyn a thair blynedd, 2019 i 2023 (mae'r llinellau'n dangos EASR un flwyddyn ar gyfer 2023)

Yn CTMUHB, cofnodwyd heroin/morffin mewn 45.1 y cant o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn 2023, ac roedd bensodiasepinau ac 'opioidau eraill' wedi'u cofnodi mewn 33.3 y cant o farwolaethau (gweler Ffigur

46). Cofnodwyd unrhyw opioid mewn 68.6% o farwolaethau, a'r rhai mwyaf cyffredin oedd heroin/morffin, methadon, a thramadol.




Ffigur 46: Nifer y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau a oedd yn gysylltiedig â'r chwe grŵp o sylweddau a gofnodwyd amlaf yn CTMUHB, yn ôl blwyddyn, 2014 i 2023

3.5.6 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (HDUHB)

Yn 2023, cofnodwyd cyfradd o 11.1 o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn HDUHB, sy'n uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru ac yn gynnydd sylweddol o'i gymharu â chyfradd y flwyddyn flaenorol (6.4). Cofnodwyd cynnydd mawr yn y gyfradd marwolaethau yn Sir


Gaerfyrddin o 3.1 yn 2022 i 15.8 yn 2023. Ni chofrestrwyd unrhyw farwolaeth yng Ngheredigion yn 2023. Mae cyfartaledd treigl tair blynedd y gyfradd marwolaethau yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro wedi cynyddu'n sylweddol, tra bod y gyfradd marwolaethau yng Ngheredigion wedi gostwng (gweler Ffigur 47).



Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 47: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth mewn perthynas â marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau mewn awdurdodau lleol yn HDUHB, yn ôl blwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio data un flwyddyn a thair blynedd, 2019 i 2023 (mae'r llinellau'n dangos EASR un flwyddyn ar gyfer 2023)

Yn 2023, cofnodwyd opioidau mewn 86.5% o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn HDUHB, a chofnodwyd heroin/morffin mewn 75 y cant o'r marwolaethau hyn. Roedd sylweddau eraill yn cynnwys bensodiasepinau, gabapentinoïdau, a chocên (gweler Ffigur 48).




Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 48: Nifer y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau a oedd yn gysylltiedig â'r chwe grŵp o sylweddau a gofnodwyd amlaf yn HDUHB, yn ôl blwyddyn, 2014 i 2023

3.5.7 Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Yn 2023, cofnodwyd 3.5 marwolaeth oherwydd camddefnyddio cyffuriau fesul 100,000 o'r boblogaeth ym Mhowys, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn gynydd bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (3.2). Felly, roedd cyfartaledd Powys yn is na chyfartaledd Cymru, ac mae'r cyfartaledd treigl tair blynedd yn dangos tuedd ar i lawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf (gweler Ffigur 49). Mae

angen bod yn ofalus wrth ddehongli niferoedd a thueddiadau ym Mhowys oherwydd y niferoedd cyson isel.



Ffynhonnell: ONS 2024


Ffigur 49: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth mewn perthynas â marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau mewn awdurdodau lleol yn PTHB, yn ôl blwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio data un flwyddyn a thair blynedd, 2019 i 2023 (mae'r llinellau'n dangos EASR un flwyddyn ar gyfer 2023)

Oherwydd y nifer llai o farwolaethau a gofnodwyd ym Mhowys o'i gymharu â byrddau iechyd eraill, nid yw nifer y marwolaethau yn ôl sylwedd wedi cael ei ddangos. Yn 2023 roedd:

- 3.5.8 Un farwolaeth yn gysylltiedig â heroin/morffin
- 3.5.9 Un farwolaeth yn gysylltiedig ag amffetaminau
- 3.5.10 Un farwolaeth yn gysylltiedig â chyffuriau gwrth-iselder

3.5.11 Un farwolaeth yn gysylltiedig â pharasetamol


3.5.11.1 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (SBUHB)



Ffynhonnell: ONS 2024

Ffigur 50: EASR fesul 100,000 o'r boblogaeth mewn perthynas â marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau mewn awdurdodau lleol yn SBUHB, yn ôl blwyddyn, wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio data un flwyddyn a thair blynedd, 2019 i 2023 (mae'r llinellau'n dangos EASR un flwyddyn ar gyfer 2023)

Yn SBUHB, cofnodwyd cocên yn yr un nifer o farwolaethau â heroin/morffin, a'r ddau sylwedd hyn oedd y rhai mwyaf cyffredin yn y bwrdd iechyd yn 2023. Fe'u cofnodwyd mewn 29.7 y cant o farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau. Cofnodwyd unrhyw opioid mewn 48.6% o farwolaethau, a'r rhai mwyaf cyffredin oedd heroin/morffin, a methadon. Cofnodwyd bensodiasepinau mewn 24.3% o farwolaethau hefyd (gweler Ffigur 50).



Ffigur 51: Nifer y marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau a oedd yn gysylltiedig â'r chwe grŵp o sylweddau a gofnodwyd amlaf yn SBUHB, yn ôl blwyddyn, 2014 i 2023

4 Adolygiadau o Achosion o Wenwyno Angheuol a Heb Fod yn Angheuol gan Gyffuriau

Mae adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau yng Nghymru wedi'u cynnal ers mis Mehefin 2014 yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru (gweler 5.2 Atodiad B). Hyd yn hyn, cynhaliwyd cyfanswm o 1,469 o adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a 1,494 o adolygiadau o achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau (gweler Tabl 14).

Tabl 14: Cyfanswm cronnol o adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol a gwenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau a gynhaliwyd, yn ôl Bwrdd Iechyd, 2014 i 2023

	Adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau	Adolygiadau o achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau
Aneurin Bevan	175	23
si Cadwaladr*	156	0
rdydd a'r Fro	220	11
Cwm Taf Morgannwg	382	141
Hywel Dda	162	0
Addysgu Powys	34	2
Bae Abertawe	340	1317
Cymru	1469	1494

*Rhoddwyd proses adolygu achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau ar waith yn 2016

**With the exception of data from 2014/15, individuals residing in Bridgend have been assigned to Cwm Taf Morgannwg rather than Swansea Bay. Figures may be different to those previously published.

Er bod y broses o adolygu achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau wedi'i chyflwyno'n llawn ym mhob un o ranbarthau'r byrddau iechyd, ar hyn o bryd dim ond un rhanbarth, SBUHB, sy'n adolygu achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau fel mater o drefn. Mae'r adran ganlynol yn darparu data mewn perthynas â'r adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau a gynhaliwyd ledled Cymru fel y'u cofnodwyd yng Nghronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru (HRD) yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2023, yn unol â'r cyfnod adrodd blwyddyn galendr ar gyfer y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).

4.4 Adolygiadau o Achosion o Wenwyno Angheuol gan Gyffuriau

Yn 2023, cynhaliwyd 201 o adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau ledled y saith bwrdd iechyd yng Nghymru (gweler Tabl 15). Mae'r nifer hwn yn llai na'r flwyddyn flaenorol (gostyngiad o 14.8%) pan gynhaliwyd y nifer

fwyaf o adolygiadau erioed, ac felly hon yw'r flwyddyn gyntaf ers dechrau cynnal adolygiadau lle mae nifer yr adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau wedi gostwng, ac eithrio 2020.

Tabl 15: Adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau, yn ôl Bwrdd Iechyd, fesul blwyddyn

	2014/15*	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	Total
Aneurin Bevan	21	16	17	26	13	22	22	24	14	175
Prifysgol Betsi Cadwaladr	-	7	17	16	27	32	20	11	26	156
Caerdydd a'r Fro	11	15	11	28	19	30	29	37	39	219
Cwm Taf Morgannwg	38	29	30	34	34	52	46	69	47	379
Hywel Dda	11	19	16	17	20	28	17	23	11	162
Addysgu Powys	1	0	0	3	8	7	7	6	2	34
Bae Abertawe	1	28	29	11	26	47	70	66	62	340
Cymru	83	114	120	135	147	218	211	236	201	1465

Mae cymariaethau â data Marwolaethau Oherwydd Camddefnyddio Cyffuriau (SYG, 2024) a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn yn dangos bod cyfran yr achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd ledled Cymru yn 2023 yn is (79.4%) na'r rhai a gofnodwyd gan y SYG (gweler Tabl 16). Oherwydd natur gyflym adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau (h.y. cychwyn yr adolygiadau cyn derbyn gwybodaeth am unrhyw wenwyn neu ddyfarniad crwner), nid yw pob achos o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygir yn cael ei gadarnhau'n achos o Farwolaeth Oherwydd Camddefnyddio Cyffuriau.

Tabl 16: Adolygiadau o Achosion o Wenwyno Angheuol gan Gyffuriau a Marwolaethau Oherwydd Camddefnyddio Cyffuriau'r SYG, 2014 i 2023

	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau	29	54	114	120	135	147	218	211	236	201
Marwolaethau Cysylltiedig â Chamddefnyddio Alcohol a gofnodwyd gan ONS (blwyddyn gofrestru) [†]	113	168	192	185	208	165	149	210	205	253
Marwolaethau Cysylltiedig â Chamddefnyddio Alcohol a gofnodwyd gan ONS (blwyddyn wirioneddol y farwolaeth) [†]	153	186	183	176	224	193	222	204	215	-
% yr adolygiadau o achosion o gymharu â'r ganran a gofnodwyd gan ONS (blwyddyn gofrestru)										
% yr adolygiadau o achosion o gymharu â'r ganran a gofnodwyd gan ONS (blwyddyn wirioneddol y farwolaeth)	25.7%	32.1%	59.4%	64.9%	64.9%	89.1%	146.3%	100.5%	115.1%	79.4%

[†]Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2024)


4.4.2 Demograffeg

Y band oedran mwyaf cyffredin a gofnodwyd oedd y grŵp oedran 40-44 oed, sef 21.4 y cant (n=43) o adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau. Yn 2023, yr oedran canolrifol yw 44 oed, sydd ychydig yn uwch na 2022. Roedd cynnydd yng nghyfran y marwolaethau a adolygwyd ar gyfer menywod dros 50 oed, ond gostyngiad ar gyfer menywod rhwng 40 a 49 oed. Mae cyfran y marwolaethau a adolygwyd ar gyfer dynion dros 50 oed yn parhau i gynyddu, ond cofnodwyd gostyngiad ar gyfer dynion rhwng 25 a 39 oed. Roedd cymariaethau o oedrannau canolrifol a dosbarthiad grwpiau oedran (gweler Tabl 17 a Ffigur 51) rhwng achosion yn ymwneud â dynion a menywod yn debyg, a chofnodwyd oedran canolrifol o 44 oed ar gyfer dynion a 41.5 ar gyfer menywod.

Tabl 17: Demograffeg adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau yng Nghymru, 2016 i 2023

	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau	114	120	135	147	218	211	236	201
% Dynion	81.6%	77.5%	83.7%	77.6%	76.6%	82.0%	76.3%	79.1%
Oedran canolrifol (blynnyddoedd)	37.5	36.5	41	40	41	42	43	44
Oedran lleiaf (blynnyddoedd)	19	16	15	13	17	10	12	15
Oedran mwyaf (blynnyddoedd)	56	78	65	69	67	63	84	71
% Dan 25 oed	8.8%	9.2%	7.4%	9.5%	6.9%	6.2%	5.9%	5.5%
% Dros 50 oed	7.0%	11.7%	14.8%	19.0%	16.5%	19.0%	22.0%	29.4%
% Yn byw mewn tai annïogel / Heb gartref sefydlog	40.8%	26.3%	32.5%	33.0%	41.5%	43.2%	46.4%	46.5%

*Cyfran yr unigolion lle mae data wedi'u darparu gan wasanaethau a'u cofnodi ar y Gronfa Ddata Lleihau Niwed



Ffigur 52: Rhyw ac ystod oedran adeg marwolaeth ar gyfer achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd yng Nghymru, 2016 i 2023

Gofynnir am wybodaeth am statws tai ar gyfer pob achos a adolygir, ac ymatebodd 42.8 y cant (n=86) yn 2023, gostyngiad o'r flwyddyn flaenorol. Mewn achosion a oedd yn hysbys i'r gwasanaethau, nodwyd bod 46.5 y cant yn byw mewn tai anniogel (e.e. llety hostel) neu nad oedd ganddynt gartref sefydlog (e.e. digartref ac ar y stryd, 'symud o sofffa i sofffa'). Mae cyfran yr achosion lle nodir bod unigolion yn byw mewn tai anniogel neu nad oedd ganddynt gartref sefydlog wedi cynyddu dros y saith mlynedd diwethaf ers 2017. Mae ystadegau arbrolol a gyhoeddwyd gan yr SYG yn awgrymu y gallai marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau ymhlith pobl ddigartref fod yn gostwng ar draws Cymru a Lloegr yn ystod y blynyddoedd diwethaf.²

²Marwolaethau pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr: cofrestriadau 2021. 2022. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.


<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletin/s/deathsofhomelesspeopleinenglandandwales/2021registrations#causes-of-death-among-homeless-people>

4.4.3 Amgylchiadau a natur y farwolaeth

Lleoliad achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau

Cofnodwyd lleoliad y farwolaeth mewn 54.7% (n=110) o'r holl achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd yn ystod 2023. Y lleoliad mwyaf cyffredin mewn achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau (mewn achosion lle cofnodwyd y lleoliad) oedd preswylfeydd preifat, sef 86.4 y cant o'r achosion a adolygwyd ledled Cymru (n=95). O'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, gall achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau mewn preswylfeydd preifat, yn benodol yng nghartrefi unigolion, a'r gostyngiad mewn achosion o'r fath mewn hosteli, cartrefi eraill a mannau cyhoeddus, ddynodi tuedd sy'n dod i'r amlwg (gweler Ffigur 53).

Mewn achosion lle'r oedd y wybodaeth ar gael (n=114), mewn 90.4 y cant (n=103) o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau, nodwyd bod yr unigolyn yn farw yn y lleoliad. Yn y 9.6 y cant o achosion eraill, cyhoeddwyd bod yr unigolyn yn farw mewn lleoliad eilaidd, fel adran damweiniau ac achosion brys neu ysbyty. Mae hyn yn gyson i raddau helaeth â data o raglen Naloxone sy'n awgrymu bod gofal eilaidd (er enghraifft, galw am ambiwlans) yn digwydd yn llai aml.



Ffigur 53: Adolygiad o leoliad y farwolaeth mewn achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau, 2016 i 2023

Ymdrechion adfywio

Yn ystod 2023, roedd data mewn perthynas ag ymdrechion adfywio ar gael ar gyfer 50.2 y cant o achosion (n=101; gweler Tabl 18). Yn yr achosion hyn:

- Cafwyd ymdrech i adfywio mewn 37.6 y cant (n=38) o'r achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd, nifer is ond cyfran uwch na'r flwyddyn flaenorol
- Mewn achosion lle bu ymdrech i adfywio, nodwyd bod Naloxone yn y cartref (THN) wedi'i ddefnyddio mewn 26.3 y cant (n=10) o achosion
- Mewn achosion lle na chofnodwyd manylion adfywio (naill ai 'ddim yn hysbys' neu 'ni wnaed ymdrech i adfywio') a lle cofnodwyd lleoliad cyhoeddi'r farwolaeth (n = 76), cyhoeddwyd bod 94.7 y cant (n = 72) yn farw yn y lleoliad, sy'n dangos y gallai ymdrechion adfywio fod wedi bod yn aneffeithiol adeg darganfod yr unigolyn

Tabl 18: Cyfran yr achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau lle bu ymdrech i adfywio, 2016 i 2023

	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
angheuol gan gyffuriau a adolygwyd	114	120	135	147	218	211	236	201
% yr achosion lle y cofnodwyd ymdrechion ddadebru	49.1%	45.8%	55.6%	43.5%	50.0%	62.1%	63.1%	50.2%
% lle y gwnaed ymdrech i ddadebru	64.3%	67.3%	44.0%	50.0%	50.5%	42.7%	32.2%	37.6%
% lle y defnyddiwyd THN (lle y rhoddwyd triniaeth ddadebru)	22.2%	18.9%	36.4%	25.0%	29.1%	21.4%	29.2%	26.3%

Sylweddau a ganfuwyd yn y lleoliad

Fel rhan o'r broses adolygu, cesglir gwybodaeth am unrhyw sylweddau a chyfarpar posibl sy'n cael eu canfod yn y lleoliad adeg yr adroddiad cychwynnol. Yn ystod 2023, cofnodwyd y wybodaeth hon mewn 56.2 y cant o achosion (n=113; gweler Tabl 19). O'r achosion hyn:

- Canfuwyd sylweddau yn lleoliad y farwolaeth mewn 60.2% o'r marwolaethau a adolygwyd
- Canfuwyd cyfarpar (e.e. nodwyddau, chwistrellau, llwyau a hidlyddion) yn y lleoliad mewn 50.4% o farwolaethau

Tabl 19: Adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau lle canfuwyd sylweddau neu gyfarpar yn y lleoliad, 2016 i 2023

	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau a adolygwyd	114	120	135	147	218	211	236	201
% yr achosion lle y cofnodwyd presenoldeb sylweddau	82.5%	78.3%	85.2%	74.1%	73.4%	80.1%	80.1%	56.2%
% lle y canfuwyd sylweddau yn y lleoliad	40.4%	47.9%	42.6%	57.8%	59.4%	69.2%	59.3%	60.2%
% yr achosion lle y cofnodwyd presenoldeb cyfarpar	82.5%	78.3%	85.2%	74.1%	73.4%	80.1%	80.1%	56.2%
% lle y canfuwyd cyfarpar yn y lleoliad	56.4%	50.0%	40.0%	55.0%	51.9%	58.0%	51.9%	50.4%

4.4.4 Adborth gan Wasanaethau

Fel rhan o'r broses o adolygu achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau, mae'r Cydgysylltydd Adolygu Achosion (CRC) yn anfon ceisiadau am wybodaeth at wasanaethau lleol er mwyn sefydlu hanes cysylltu ac ymgysylltu â'r ymadawedig, a gwybodaeth sy'n helpu i gynnal yr adolygiad (gweler 5.2 Atodiad B). Ar gyfer yr achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd yn 2023, y nifer canolrif o wasanaethau y cysylltwyd â nhw gan CRCs i ddarparu gwybodaeth oedd 6 gwasanaeth fesul achos, sy'n gyson â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae nifer y gwasanaethau y cysylltir â nhw am wybodaeth yn parhau i amrywio rhwng Byrddau Cynllunio Ardal (gweler Tabl 20).

Mae'r gallu i gynnal adolygiadau ystyrlon a chadarn o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau yn dibynnu ar ansawdd y wybodaeth a ddarperir am yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r digwyddiad a hanes personol yr unigolyn a allai fod wedi helpu i atal digwyddiad gwenwyno gan gyffuriau. O ganlyniad, mae'n hanfodol bwysig cynnal rhwydweithiau gwasanaethau wedi'u strwythuro'n dda fel rhan o bob panel adolygu er mwyn sicrhau bod gwybodaeth amserol a chywir yn cael ei dychwelyd.


Tabl 20: Nifer canolrifol o wasanaethau y cysylltwyd â nhw trwy'r HRD am wybodaeth fesul achos o wenwyno angheuol gan gyffuriau yn ôl rhanbarth Bwrdd Cynllunio Ardal, 2016 i 2023

	2016 <i>Median (range)</i>	2017 <i>Median (range)</i>	2018 <i>Median (range)</i>	2019 <i>Median (range)</i>	2020 <i>Median (range)</i>	2021 <i>Median (range)</i>	2022 <i>Median (range)</i>	2023 <i>Median (range)</i>
Aneurin Bevan	22 (20-24)	19 (16-22)	17 (16-19)	16 (2-19)	14 (10-20)	12 (7-15)	10.5 (10-20)	12 (8-24)
Betsi Cadwaladr	9 (8-12)	11 (7-15)	8 (6-14)	8 (6-9)	8 (6-8)	8 (7-11)	9 (8-9)	9 (8-11)
Caerdydd a'r Fro Cwm Taf	19 (16-20)	21 (18-21)	23 (1-27)	22 (1-26)	21 (16-27)	17 (14-20)	14 (12-15)	13 (12-14)
Morgannwg	7 (4-14)	7 (5-8)	7 (4-19)	6 (4-13)	6 (4-9)	6 (4-8)	6 (4-10)	6 (4-8)
Hywel Dda	5 (4-6)	5 (5-10)	6 (5-7)	5 (5-7)	5 (4-6)	5 (5-6)	6 (5-6)	5 (5-6)
Addysgu Powys	-	-	32 (32-33)	33 (17-33)	33 (30-33)	33 (1-33)	3 (1-24)	6.5 (1-12)
Bae Abertawe	11 (7-13)	13 (10-16)	17 (10-19)	12 (10-17)	10 (6-12)	7 (1-9)	2 (1-7)	1 (1-4)
Cymru	9 (4-24)	12 (5-22)	16 (1-33)	8 (1-33)	8 (4-33)	7 (1-33)	6 (1-24)	6 (1-24)

Cysylltiad â gwasanaethau hysbys

Ym mhob un o'r 201 achos o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd yn 2023:

- Roedd yn hysbys bod unigolion wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaeth o fewn 12 mis cyn marw mewn 48.8% o achosion (n=98), yn debyg i'r blynyddoedd diwethaf
- Roedd yn hysbys bod unigolion wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaeth o fewn mis cyn marw mewn 30.8% o achosion (n=62)
- Cofnodwyd 'dim cysylltiad hysbys' neu ddim cysylltiad â gwasanaethau o fewn 12 mis cyn marw mewn 50.7% o achosion (n = 102)
- Mewn achosion lle'r oedd unigolion yn hysbys i wasanaethau camddefnyddio sylweddau lleol (n=78), roedd 56.4 y cant (n=44) wedi cael cysylltiad â gwasanaeth camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys y Gwasanaeth Troseddwy'r Integredig (IOS), yn ystod y 12 mis cyn marw




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Lleihau Niwed Tachwedd 2024

Ffigur 54: Hyd yr amser ers y cysylltiad hysbys diwethaf ag unrhyw wasanaeth mewn achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau, 2016 i 2023

Hanes hysbys defnyddio sylweddau

Roedd hanes defnyddio sylweddau yn hysbys ac wedi'i adrodd mewn 78 (38.8 y cant) o'r achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd lle'r oedd yr unigolyn wedi cael cysylltiad â gwasanaethau yn ystod y 12 mis cyn marw (gweler Ffigur 55). O'r achosion hyn, cofnodwyd hanes o ddefnyddio amryw o gyffuriau mewn dros ddwy ran o dair o'r achosion a adolygwyd (70.5 y cant), sy'n gyson â'r blynyddoedd blaenorol. Er bod y cyfrannau'n parhau i fod yn gymharol sefydlog yn y rhan fwyaf o gategoriâu, bu cynnydd cyson ers 2016 yng nghyfran yr achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau lle'r oedd gan yr unigolyn hanes hysbys o ddefnyddio cocên/crac. Hefyd, nodwyd gostyngiad yn y gyfran o achosion lle mae hanes o ddefnyddio heroin, opioidau eraill, a bensodiasepinau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.



Ffynhonnell: Cronfa Ddata Lleihau Niwed Tachwedd 2024

Ffigur 55: Cyfran yr achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau lle nodwyd hanes o ddefnyddio sylweddau yn ystod y 12 mis diwethaf, yn ôl sylwedd, 2016 i 2023

Iechyd meddwl

Yn 2023, cofnodwyd hanes o salwch meddwl neu ddiagnosis o anhwylder seiciatrig ym 45.3 y cant (n=91) o'r achosion angheuol a adolygwyd.³ Oherwydd strwythur a natur ansoddol adrodd trwy Gronfa Ddata Lleihau Niwed Cymru, ni ellir darparu unrhyw wybodaeth arall yn yr adroddiad hwn ar hyn o bryd am natur a pha mor ddiweddar oedd salwch meddwl / ymddygiad hunan-niweidio a gofnodwyd. Fodd bynnag, defnyddir y wybodaeth hon i helpu i adolygu achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a datblygu argymhellion ar lefel leol a rhanbarthol yng Nghymru fesul achos.

4.4.5 Casgliad a chanfyddiadau'r crwner

Yn unol â'r canllawiau ar Adolygu Achosion o Wenwyno Angheuol gan Gyffuriau / Achosion o Wenwyno heb fod yn Angheuol gan Gyffuriau, mae'r HRD: Cronfa Ddata Gwenwyno gan Gyffuriau yn darparu swyddogaeth ar gyfer cofnodi canfyddiadau terfynol y crwner ar gyfer pob adolygiad o achos wenwyno o angheuol gan gyffuriau. Oherwydd natur gyflym y broses o adolygu achosion o wenwyno gan gyffuriau, mae angen trin pob achos fel 'achos posibl o wenwyno gan gyffuriau' nes y ceir cadarnhad i'r gwrthwyneb. Yn y cyswllt hwn, mae'r broses o baru canfyddiadau adolygiadau ochr yn ochr â chasgliadau crwneriaid yn rhan annatod o ddatblygu argymhellion cadarn, a deall natur gwenwyno gan gyffuriau yng Nghymru yn well.

Ers 2016, mae 35.4 y cant (n = 489) o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau wedi cofnodi canfyddiadau'r crwner yn yr HRD (gweler Tabl 21). Mae nifer absoliwt a chyfran yr holl adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol, ac mae'n is yn gyffredinol na'r blynyddoedd diwethaf.

Tabl 21: Nifer yr adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau gyda chofnod o ganfyddiadau'r crwner yn HRD, 2016 i 2023

	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	Total
Achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd	114	120	135	147	218	211	236	201	1382
Achosion lle y cofnodwyd canfyddiadau'r crwner	33	50	60	36	71	89	95	55	489
% yr achosion lle y cofnodwyd canfyddiadau'r crwner	28.9%	41.7%	44.4%	24.5%	32.6%	42.2%	40.3%	27.4%	35.4%

Mewn achosion lle cofnodwyd canfyddiadau'r crwner yn yr HRD, cadarnhawyd casgliad 'cysylltiedig â chyffuriau' mewn 81.8 y cant (n=45) o achosion (gweler Tabl

³Mae niferoedd yn ymwneud ag iechyd meddwl wedi'u crynhoi ar sail sylwadau testun rhydd, a dylid eu dehongli gyda gofal a'u trin fel brasamcan.

22). Cofnodwyd rhesymau naturiol, damweiniau/anffawd, hunanladdiad a chasgliadau di-ddosbarth yn y 18.2% arall o achosion.

Tabl 22: Cyfran yr achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau a adolygwyd sy'n cynnwys cofnod o ganfyddiadau'r crwner, a chyfran yr achosion lle cadarnhawyd casgliad 'cysylltiedig â chyffuriau', yn ôl bwrdd iechyd yn 2023

	Achosion o Wenwyno Angheuol gan Gyffuriau a adolygwyd	% lle y cofnodwyd canfyddiadau'r crwner	% lle y cadarnhawyd casgliad
Aneurin Bevan	14	-	-
Betsi Cadwaladr	26	-	-
Caerdydd a'r Fro	39	-	-
Cwm Taf Morgannwg	47	-	-
Hywel Dda	11	-	-
Addysgu Powys	2	50.0%	100.0%
Bae Abertawe	62	87.1%	81.5%
Cymru	201	27.4%	81.8%

4.5 Adolygiadau o Achosion o Wenwyno Heb Fod yn Angheuol gan Gyffuriau

Gall achosion blaenorol o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau/cymryd gorddos o gyffuriau ragfynegi achosion dilynol o wenwyno angheuol gan gyffuriau. Mae adolygiadau amlddisgyblaethol cyflym o achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau yn darparu mecanwaith ar gyfer pobl sydd wedi cael profiad o wenwyno nad oedd yn angheuol, a chynnig cymorth iddynt drwy wasanaethau trin cyffuriau. Yn 2023, cynhaliodd y byrddau iechyd yng Nghymru a oedd yn cymryd rhan 169 o adolygiadau o achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau (gweler Tabl 23), sy'n gynnydd o 3.0 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Tabl 23: Adolygiadau o achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau yn ôl Bwrdd Iechyd, 2016 i 2023

	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	Total
Aneurin Bevan	3	3	1	4	12	0	0	0	23
Betsi Cadwaladr	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Caerdydd a'r Fro	7	0	0	0	4	0	0	0	11
Cwm Taf Morgannwg	35	9	18	46	5	0	0	0	113
Hywel Dda	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Addysgu Powys	0	0	0	0	0	0	0	2	2
Bae Abertawe	123	114	125	94	214	170	164	167	1171
Cymru	168	126	144	144	235	170	164	169	1320

4.5.2 Demograffeg

Mae'r proffiliau demograffig ar gyfer y 169 o adolygiadau o achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau yn 2023 yn cael eu dangos yn Nhabl 24. Mae cymariaethau demograffig yn dangos bod yr unigolion mewn achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau a adolygwyd yn iau yn gyson na'r rhai mewn achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau (oedran canolrifol 37 oed o'i gymharu â 43 oed yn y drefn honno).

Mae oedran canolrifol unigolion mewn achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau wedi aros yn gymharol gyson dros yr wyth mlynedd diwethaf, tra bod cyfran yr achosion yn y categorïau o dan 25 oed a thros 50 oed wedi cynyddu yn 2023.

Gofynnwyd am wybodaeth am statws tai ar gyfer pob achos a adolygwyd, ac mewn achosion lle'r oedd yr unigolion yn hysbys i'r gwasanaethau, nodwyd bod tua hanner (51.4 y cant) ohonynt yn byw mewn tai anniogel (e.e. llety hostel) neu nad oedd ganddynt gartref sefydlog (e.e. digartref ac ar y stryd, 'symud o sofffa i sofffa'). Roedd cyfran yr achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau lle nodwyd bod yr unigolion yn byw mewn tai anniogel neu nad oedd ganddynt gartref sefydlog ar ei lefel isaf erioed yn 2023, yn dilyn y lefel uchaf yn 2022.

Tabl 24: Demograffeg adolygiadau o achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau: Cymru Gyfan, 2016 i 2023

	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
Achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau	168	126	144	144	235	170	164	169
% Dynion	73.8%	77.0%	81.9%	72.2%	73.2%	68.2%	76.2%	76.9%
Oedran canolrifol (blynyddoedd)	35	33	35	35	34	36	37	37
Oedran lleiaf (blynyddoedd)	18	18	19	16	15	16	12	14
Oedran mwyaf (blynyddoedd)	57	56	118	56	78	67	58	63
% Dan 25 oed	10.7%	8.7%	5.6%	16.0%	20.4%	12.9%	14.6%	22.5%
% Dros 50 oed	5.4%	5.6%	11.8%	6.9%	7.7%	9.4%	7.3%	14.2%
% Yn byw mewn tai anniogel / Heb gartref sefydlog	59.4%	57.1%	52.2%	64.4%	52.7%	53.3%	67.7%	51.4%

*Cyfran yr unigolion lle mae data wedi'u darparu gan wasanaethau a'u cofnodi ar y Gronfa Ddata Lleihau Niwed

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod unigolion sydd â hanes gydol oes o ddigwyddiadau gwenwyno gan gyffuriau wedi goroesi 2 ddigwyddiad y flwyddyn o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau ar gyfartaledd.⁴ Felly mae'n debygol y byddai achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau wedi'u rhagflaenu gan ddigwyddiadau o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau.

⁴Holloway K R, Bennett T H, a Hills R (2016). Non-fatal overdose among opiate users in Wales: A national survey. *Journal of Substance Use*; Ar gael yn:

<https://www.tandfonline.com/doi/abs/10.3109/14659891.2015.1063718>

5 Atodiadau

5.1 Atodiad A - Diffiniadau a nodiadau ar ddehongli data

Mae 'marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau' yn cynnwys dau fesur fel arfer. Fel arfer, mae marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau cyfreithlon a chyffuriau anghyfreithlon yn cael eu disgrifio fel 'marwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau.' Mae 'marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau', sef y mesur a ffefrir ar gyfer dadansoddi marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yng nghydestun strategaethau camddefnyddio sylweddau, yn cynnwys cyffuriau anghyfreithlon yn unig (h.y. cyffuriau a reolir o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 nad ydynt wedi'u rhoi ar bresgripsiwn i'r unigolyn). Mae marwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau a chamddefnyddio cyffuriau yn cael eu nodi trwy ddefnyddio'r 10fed argraffiad o'r codau Dosbarthiad Rhyngwladol o Glefydau (codau ICD-10). Felly, mae marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau yn is-set o 'farwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau' a 'marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau'. Mae'r holl ffigurau yn y ddogfen hon yn cyfeirio at farwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau oni nodir yn wahanol. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn dosbarthu marwolaeth fel 'marwolaeth sy'n gysylltiedig â chyffuriau' os yw achos sylfaenol y farwolaeth yn cael ei ddosbarthu gan god sy'n nodi:

- Anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol oherwydd y defnydd o gyffuriau (ac eithrio alcohol a thybaco)
- Gwenwyn damweiniol gan gyffuriau, meddyginiaethau, a sylweddau biolegol
- Hunan-wenwyno bwriadol gan gyffuriau, meddyginiaethau, a sylweddau biolegol
- Gwenwyno gan gyffuriau, meddyginiaethau a sylweddau biolegol, mewn achosion lle nad yw'r bwriad yn hysbys
- Ymosodiad gan gyffuriau, meddyginiaethau, a sylweddau biolegol

Mae 'marwolaethau oherwydd gwenwyno gan gyffuriau' yn cynnwys pob marwolaeth a ddosberthir felly; mae 'marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau' yn cynnwys marwolaethau lle nodir sylwedd a reolir o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971. Mae modd ychwanegu sylweddau at y diffiniadau sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau trwy is-ddeddfwriaeth, felly mae nifer y marwolaethau a gyhoeddwyd yn flaenorol yn destun adolygu. Fel arfer, nid oes modd gwahaniaethu rhwng heroin a morffin mewn profion tocsicoleg ar bobl sydd wedi marw, felly mae marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r sylweddau hyn yn cael eu disgrifio fel 'heroin/morffin'. Noder hefyd fod y SYG yn dosbarthu achosion o wenwyno bwriadol a gwenwyno â bwriad amhendiant fel 'hunanladdiadau'.

Fel arfer, cofnodir ffigurau ar gyfer marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn ôl blwyddyn cofrestru'r farwolaeth. Mae pob marwolaeth lle y credir bod defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn ffactor posibl yn cael ei hatgyfeirio i'r Crwner, gan arwain at oedi rhwng y farwolaeth a chofrestru'r farwolaeth. O

ganlyniad, mae'r oedi hwn yn golygu bod nifer sylweddol o farwolaethau yn cael eu cofrestru mewn blwyddyn wahanol i'r flwyddyn y bu farw'r unigolyn. Er bod adrodd yn ôl blwyddyn gofrestru yn golygu bod modd dadansoddi rhestr gynhwysfawr o farwolaethau a chymharu'r sefyllfa yng ngwledydd y DU, gall newidiadau i'r amser sydd ei angen i gofrestru marwolaethau oherwydd camddefnyddio cyffuriau atal neu wella tueddiadau blynyddol yn y data.

Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y dulliau a ddefnyddir gan y SYG i nodi marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn:

<https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsrelatedtodrugpoisoninginenglandandwales/2015registrations>

5.2 Atodiad B - Canllawiau ar adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau ac achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau

Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn amlinellu'r fframwaith a'r gweithdrefnau mewn perthynas ag adolygu achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau ac achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau yng Nghymru. Datblygwyd y canllawiau yn unol â nodau allweddol Cynllun Cyflawni Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau 2013-15 (Canlyniad 3.1) Llywodraeth Cymru, gan roi arweiniad i'r holl randdeiliad yng Nghymru sydd â chylch gwaith i leihau achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn cwmpasu pob cam o gynnal adolygiad effeithiol gan gynnwys cychwyn, gwaith amlddisgyblaethol a chasglu data, a nodi, cyflwyno a lledaenu argymhellion a gwersi a ddysgwyd.

Mae cyflwyno'r canllawiau yn disodli'r broses adolygu gyfrinachol flaenorol lle'r oedd achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau yn cael eu hadolygu ar ôl cwest y crwner. O dan y canllawiau newydd, mae 'adolygiadau achos' yn cael eu cynnal yn lleol cyn gynted â phosib ar ôl yr achos o wenwyno angheuol gan gyffuriau. Mae hyn yn darparu gwybodaeth fwy amserol am yr amgylchiadau sy'n ymwneud â marwolaeth a lle mae'r dystiolaeth orau yn dangos bod modd dysgu gwersi. Nododd y broses adolygu gyfrinachol fod angen sefydlu Paneli Adolygu Marwolaethau sy'n Gysylltiedig â Chyffuriau, lle mae gwaith cymunedol a gwaith partneriaeth yn gallu helpu i nodi argymhellion sydd â'r nod o leihau achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau yn lleol ac yn genedlaethol.

Yn wahanol i'r canllawiau hanesyddol, mae'r canllawiau diweddaraf yn nodi bod angen adolygu achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau ac achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau (mae'r canllawiau'n cynnwys diffiniadau achos o'r naill a'r llall). Mae Cydgysylltydd Adolygu Achosion (CRC) enwebedig yn gyfrifol am adolygu achosion yn ymwneud â'r ddau fath o wenwyno, ac fe'i nodir gan Grŵp Lleihau Niwed y Bwrdd Cynllunio Ardal Lleol. Mae'r CRC yn cydgysylltu gwaith partneriaeth a chydweithredol rhwng gwasanaeth y Crwner a gwasanaethau cymorth yn yr ardal leol er mwyn bod yn sail i'r amgylchiadau sy'n gysylltiedig â marwolaeth a sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael i'w dadansoddi. Mae hyn yn cynnwys lledaenu a choladu ceisiadau am wybodaeth, a sefydlu cyfarfodydd adolygu amlasiantaeth i asesu tystiolaeth, a nodi gwersi a ddysgwyd.

Er mwyn monitro cynnydd y canllawiau ledled Cymru, sefydlwyd y Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal Gwenwyno gan Gyffuriau (NIBDPP) sy'n gyfrifol am sicrhau bod Byrddau Iechyd/Byrddau Cynllunio Ardal a'r holl randdeiliaid eraill yn symud ymlaen i gyflwyno'r argymhellion presennol a'r argymhellion sy'n dod i'r amlwg yn llawn yn unol â'r adolygiadau. Yn ogystal, mae'r NIBDPP yn gweithio ochr yn ochr â chyrff aelodaeth proffesiynol e.e. Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, ac yn cydweithio â chyrff perthnasol eraill yn y DU ac Ewrop sydd â chylch gwaith ar gyfer lleihau marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac achosion o wenwyno nad ydynt yn angheuol.

Er mwyn casglu data yn amserol ac yn gywir mewn perthynas ag adolygiadau o achosion o wenwyno angheuol gan gyffuriau ac achosion o wenwyno heb fod yn angheuol gan gyffuriau, mae Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu cronfa ddata gadarn trwy'r Gronfa Ddata Lleihau Niwed (HRD). Mae'r HRD yn darparu system ganolog ar gyfer storio a choladu data yn ddiogel, ynghyd â mecanwaith lle mae CRC yn gallu gofyn am wybodaeth gan yr holl randdeiliaid sy'n cyfrannu at adolygiad o ddigwyddiad gwenwyno gan gyffuriau.